# Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i Wastraff: Ymateb Interim yr Awdurdod

Ymateb ar y cyd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Gorffennaf 2025

# Cynnwys

Cyflwyniad ___ 3

Ynni o weithfeydd gwastraff yng Ngogledd Iwerddon ___ 5

Cwmpas y cynllun ___ 6

Cwmpas ___ 6

Trothwy cynnwys, Ysbytai a Statws Allyrwyr Bach a Statws Allyrwyr Bach Iawn ___ 9

Esemptiadau ___ 14

Cymryd rhan yn y cynllun ___ 18

Y gyfundrefn reoleiddiol a gofynion gweithredwyr ___ 18

Cyfnod MRV yn unig ___ 20

Gofynion monitro ac adrodd ___ 28

Canllawiau ___ 32

Effeithiau'r cynllun a lleihau risgiau andwyol ___ 36

Dargyfeirio i dirlenwi ac allforio gwastraff ___ 36

Llwybrau datgarboneiddio ___ 41

Dosrannu trosglwyddo costau yn gywir ___ 48

# Cyflwyniad

Daeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (CMA) i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae'r cynllun yn rhan allweddol o'n dull o fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan osod terfyn ar allyriadau o'r sectorau dan sylw a sicrhau cymhwyso pris priodol iddynt. Mae'r cynllun yn cael ei redeg ar y cyd gan Awdurdod CMA y DU (neu 'yr Awdurdod') sy'n cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

CMA y DU yw ein prif fecanwaith ar gyfer prisio 'allanoldeb carbon' allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn unol â'r egwyddor mai’r llygrwr sy’n talu. Bydd ehangu'r cynllun i sectorau a thechnolegau newydd yn cynyddu cwmpas y cynllun, yn dal mwy o allyriadau, a dylai arwain at ganlyniadau datgarboneiddio cadarnhaol ar gyfer y sectorau o fewn y cwmpas.

O ganlyniad i ddargyfeirio gwastraff gweddilliol o dirlenwi, fe wnaeth allyriadau o losgi gwastraff gynyddu o 2 i 7 miliwn tunnell o $CO_2e$ dros 2012-2022[1] ac maent yn parhau i gynyddu. Ar gyfer llosgi gwastraff ac ynni o wastraff (EfW), rydym yn rhagweld y bydd ehangu CMA y DU yn darparu cymhelliant i ddatblygu a defnyddio technolegau neu arferion datgarboneiddio i leihau allyriadau. Yn ogystal, bydd yn ategu adnoddau presennol a pholisïau rheoli gwastraff ac uchelgeisiau economi gylchol. Ar draws y DU mae cyfres o fesurau treth amgylcheddol sy'n cydweithio â pholisïau anariannol i gefnogi amcanion amgylcheddol uchelgeisiol y pedair gwlad.

Ym mis Mai 2024 cyhoeddodd yr Awdurdod ymgynghoriad technegol ar ehangu CMA y DU i’r sector gwastraff.[2] Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad cynharach ac Ymateb yr Awdurdod yn cwmpasu datblygu CMA y DU a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 a Mehefin 2023 yn y drefn honno.[3]

Roedd ymgynghoriad 2024 yn gofyn am farn ar gwmpas y cynllun, cymryd rhan yn y cynllun, gweithredu'r cyfnod Monitro, Adrodd a Gwirio (MRV) yn unig o 2026, risgiau ac effeithiau posibl y cynllun, sut i addasu cap CMA y DU ar gyfer gwastraff, a sut y gallai CMA y DU o bosibl gymell buddsoddiad mewn rhwydweithiau gwres. Ymatebodd 255 o randdeiliaid i'r ymgynghoriad.

Wrth wneud penderfyniadau yn Ymateb yr Awdurdod hwn, mae'r Awdurdod wedi gweithio'n agos gyda swyddogion ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon ac wedi ystyried rhyngweithiadau â'r dirwedd bolisi ehangach. Rydym wedi gwrando'n ofalus ar adborth rhanddeiliaid, yn enwedig ynghylch effeithiau ehangach ein cynigion.

Rydym wedi gwneud y penderfyniadau canlynol mewn perthynas â chyfnod MRV yn unig:

[1]Yr Adran Diogelu’r Cyflenwad Ynni a Sero Net (DESNZ) (2024), 'Ystadegau terfynol allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU: 1990 i 2022', https://www.gov.uk/government/statistics/final-uk-greenhouse-gas-emissions-national-statistics-1990-to-2022

[2] Mae ‘Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU: Ymgynghoriad gwastraff’ i’w weld yma: https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-scope-expansion-waste

[3] Mae'r ymgynghoriad 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU' ac 'Ymateb yr Awdurdod' i'w gweld yma: https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets

- Bydd y cyfnod MRV yn unig yn dechrau o 1 Ionawr 2026. Bydd yn galluogi gweithredwyr a chwsmeriaid i ddeall cymryd rhan yn y cynllun yn well a chefnogi datblygiad polisi pellach gan yr Awdurdod cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU.
- Yn y cam hwn, bydd cymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig yn wirfoddol. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gymryd rhan na chosb am beidio â chymryd rhan. Mae hyn er mwyn galluogi'r Awdurdod i brofi gwahanol ddulliau o ymdrin â MRV cyn deddfu ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU.
- Bydd gan gyfranogwyr fynediad llawn at gymorth rheoleiddwyr yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol heb fynd i gostau cynefino na chostau cynnal a chadw rheoleiddwyr. Anogir cyfranogiad gwirfoddol yn gryf gan y bydd hyn yn helpu gweithredwyr i ddeall yn well sut mae CMA y DU yn gweithio, ac i gefnogi datblygu a gweithredu ymhellach ehangu CMA y DU i wastraff.
- Bydd data o'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn cael ei rannu â rheoleiddwyr ac Awdurdod CMA y DU. Bydd cymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn caniatáu i weithredwyr ddarparu data mewn perthynas â'u gweithfa y gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gwblhau penderfyniadau polisi, gan gynnwys mewn perthynas â methodolegau MRV a throsglwyddo costau CMA o losgyddion gwastraff i'w cwsmeriaid. Gweler yr adran ar ofynion monitro ac adrodd am fwy o fanylion.
- Bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn gymwys i allyriadau hylosgi a phrosesu o EfW a phrosesau llosgi gwastraff.
- At ddibenion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd y trothwy cynnwys ar gyfer llosgi gwastraff yn seiliedig ar drothwy trwybwn peiriannau llosgi gwastraff bach (SWIP). Mae hyn yn golygu y bydd gweithfeydd sy'n llosgi gwastraff nad yw'n beryglus sydd â chapasiti dros 3 tunnell yr awr, neu, sy'n llosgi gwastraff peryglus â chapasiti dros 10 tunnell y dydd, o fewn cwmpas y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.
- At ddibenion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, mae'r Awdurdod yn bwriadu y bydd y trothwyon HSE/USE presennol yn gymwys wrth gynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU: bydd gweithfeydd o fewn y cwmpas sydd ag allyriadau yn is na 2,500 tunnell o $CO_2$ ffosil y flwyddyn dros gyfnod sylfaenol yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer y cynllun USE, a bydd gweithfeydd o fewn y cwmpas sydd ag allyriadau rhwng 2,500 tunnell a 25,000 tunnell o $CO_2$ ffosil y flwyddyn dros gyfnod sylfaenol yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer y cynllun HSE.
- Bydd llosgyddion gwastraff clinigol a gwastraff clinigol sy'n cael ei drin mewn cyfleusterau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu cynnwys yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol. Bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn ein galluogi i ddeall yn well effeithiau cynnwys gwastraff clinigol, a byddwn yn ailasesu'r sefyllfa hon cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU.
- Bydd llosgyddion tymheredd uchel sy'n prosesu gwastraff peryglus anghlinigol yn bennaf yn cael eu hesemptio o'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.
- Bydd yr Awdurdod yn defnyddio dull monitro integredig, a fydd yn cyfuno ffactorau Carbon-14 ac allyriadau.

Mae rhai o'r materion polisi a nodir yn yr ymgynghoriad technegol angen eu hystyried ymhellach. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi penderfynu cyhoeddi ymateb rhannol, interim nawr, gan ganolbwyntio'n benodol ar benderfyniadau sy'n ymwneud â dyluniad y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.

Bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn llywio elfennau o'r broses barhaus o wneud penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â manylion y cynllun statudol a fydd yn gymwys mewn perthynas â'r sector gwastraff pan fydd yn cael ei gynnwys yn CMA y DU. Byddwn yn nodi penderfyniadau polisi terfynol yn hynny o beth mewn Ymateb Awdurdod dilynol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Bydd hyn yn cynnwys cadarnhad o'r sail ar gyfer cynnwys gwastraff yn CMA y DU (gan gynnwys yr agweddau hynny y mae penderfyniadau interim wedi'u gwneud mewn perthynas â hwy at ddibenion y cynllun gwirfoddol fel y nodir yn y ddogfen hon) a'r goblygiad o gynnwys y sector gwastraff ar gap CMA y DU.

Yn ymgynghoriad technegol 2024, ymrwymodd yr Awdurdod i gynllunio ar y cyd ar gyfer gweithredu CMA y DU yn y sector hwn. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ystyried cyfleoedd datgarboneiddio ar gyfer gwastraff sy'n deillio o danwydd ffosil nad oes ganddynt lwybr datgarboneiddio na mecanwaith adennill costau ar hyn o bryd. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, nododd yr Awdurdod fwriad i'r sector gwastraff gael ei gynnwys yn CMA y DU o 2028 ymlaen. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r gwaith hwn, a'r wybodaeth a gesglir mewn cysylltiad â'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, cyn cadarnhau cynlluniau a manylion ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU.

Yn olaf, fe wnaeth yr ymgynghoriad hefyd ofyn cwestiynau am ystyriaethau cydraddoldeb ac roedd yn cynnwys galwad am dystiolaeth ar rwydweithiau gwres. Byddwn yn ymateb i'r cwestiynau hyn mewn Ymateb Awdurdod yn y dyfodol.

## Ynni o weithfeydd gwastraff yng Ngogledd Iwerddon

Bydd System Masnachu Allyriadau'r UE yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon o dan delerau Erthygl 9 ac Atodiad 4 i Fframwaith Windsor (Protocol Gogledd Iwerddon gynt) mewn perthynas ag ynni o weithfeydd gwastraff. Mae hyn er mwyn diogelu'r Farchnad Drydan Sengl ar ynys Iwerddon. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod rhanddeiliaid sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisi CMA y DU ar gyfer y sector hwn, er mwyn lleihau unrhyw risg o wahaniaeth wrth ddylunio a gweithredu polisi rhwng y ddau gynllun. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r sefyllfa hon at Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon, yn developETS@daera-ni.gov.uk.

# Cwmpas y cynllun

*Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar dri thestun i lywio datblygiad polisi'r llywodraeth ar gwmpas y cynllun. Y rhain oedd:*

- Cwmpas (Cwestiynau 1-4)
- Trothwy cynnwys, Ysbytai a Statws Allyrwyr Bach a Statws Allyrwyr Bach Iawn (Cwestiynau 5-9)
- Esemptiadau (Cwestiynau 10-15)

## Cwmpas

### Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, ymrwymodd yr Awdurdod i sicrhau tegwch ar draws gwahanol dechnolegau wrth ehangu CMA y DU i'r sector gwastraff. Fe wnaethom gynnig cynnwys y gweithgareddau rheoleiddiedig canlynol: llosgi a hylosgi gwastraff, ac adfer ynni arall o wastraff. Roedd hyn yn cynnwys Triniaeth Thermol Uwch, Technoleg Trosi Uwch, gweithgareddau trin gwastraff datblygedig cysylltiedig eraill a gweithgareddau gwastraff-i-danwydd (gan gynnwys cynhyrchu tanwydd hedfan cynaliadwy).[4] Fe wnaethom nodi bwriad i beidio â chynnwys ailgylchu cemegol a cheisio barn ar sut i drin cyfleusterau sy'n cynhyrchu tanwydd ar gyfer hylosgi a pholymerau a monomerau i'w hailddefnyddio fel deunyddiau crai mewn cynhyrchion deunydd.

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno y dylai ein cynigion fod yn gymwys i gyfleusterau sy'n cynnal y gweithgareddau canlynol: llosgi a hylosgi gwastraff, ac adfer ynni arall o wastraff (gan gynnwys cynhyrchu tanwydd)?
2. A oes unrhyw dechnolegau nad ydym wedi cyfeirio atynt yn yr adran hon, ac na fyddai'n cael eu cynnwys gan y gweithgareddau rydym wedi'u nodi, yr ydych o’r farn y dylent gael eu cwmpasu gan ein cynigion?
3. A ydych yn cytuno na ddylid cynnwys cyfleusterau sy'n cynhyrchu monomerau a pholymerau o wastraff y gellir eu defnyddio fel deunyddiau crai (ailgylchu nad yw’n fecanyddol neu ailgylchu 'cemegol') er mwyn i ddeunyddiau aros yn yr economi gylchol gael eu cynnwys yng nghwmpas ein cynnig?

[4] Mae Triniaeth Thermol Uwch a Thechnoleg Trosi Uwch yn cwmpasu ystod o dechnolegau ond yn cyfeirio'n bennaf at weithfeydd sy'n defnyddio pyrolysis a nwyeiddio i adfer ynni o wastraff gweddilliol.


4. Os ydych yn cytuno, sut ddylem drin cyfleusterau sy'n cynhyrchu tanwyddau a pholymerau a monomerau i'w defnyddio fel deunyddiau crai?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau ar gwmpas y cynllun gan gyfanswm o 213 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad yn nifer yr ymatebion ar draws cwestiynau unigol.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau hyn gan gynnwys 99 o gyrff llywodraeth leol, 34 o weithredwyr EfW, 22 o weithredwyr gwastraff eraill, a 22 o gyrff masnach (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Dadansoddiad o ymatebwyr cwmpas yn ôl categori**




Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr cwmpas yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi’i rhannu’n 10 categori: Ynni - 3%, Ynni o Wastraff - 16%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 2%, Diwydiant - 5%, Llywodraeth Leol - 47%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 4%, Arall - 3%, Gwastraff Arall - 10%, Corff Masnach - 10%.

Roedd ymatebwyr yn rhanedig dros gwmpas arfaethedig ehangu'r CMA i wastraff, gyda mwyafrif bach (57%) yn cytuno â'r safbwynt ymgynghori. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr llywodraeth leol yn anghytuno â'r cynnig i ehangu CMA y DU i'r sector gwastraff yn gyffredinol, yn hytrach nag anghytuno â'r technolegau a'r prosesau arfaethedig penodol.

Yn eu hymatebion ysgrifenedig, nododd ymatebwyr ystod o bryderon gyda'r cynnig:

- **Effaith ar awdurdodau lleol:** Mynegodd 47% o'r ymatebwyr bryder y byddai awdurdodau lleol yn cael eu hamlygu i gostau CMA er gwaethaf gallu cyfyngedig i leihau cynnwys ffosil eu gwastraff. Adroddodd ymatebwyr llywodraeth leol, o ystyried eu

cyfyngiadau ariannol presennol, a'u gallu cyfyngedig i leihau eu hamlygiad i gostau, y byddai costau CMA yn lleihau eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus craidd.

- **Amserlenni polisi:** Nodwyd ymyriadau megis Ailgylchu Symlach yn Lloegr a diwygiadau deunydd pecynnu ehangach fel rhai sy'n darparu opsiynau i leihau cynnwys ffosil gwastraff gweddilliol. Fodd bynnag, dywedodd 18% o'r ymatebwyr y byddai'r amserlen weithredu arfaethedig yn golygu amlygiad i gostau cyn y gallai'r polisïau hyn gael effaith.
- **Cyfrifoldeb cynhyrchwyr:** Nododd 30% o'r ymatebwyr y dylai polisi'r llywodraeth dargedu cynhyrchwyr i leihau cynnwys ffosil gwastraff. Awgrymodd rhai y dylid ehangu cwmpas y deunyddiau a gwmpesir gan gyfundrefn Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR) fel yr EPR deunydd pecynnu (pEPR) sy'n ailddosbarthu rhwymedigaethau CMA i gynhyrchwyr, i gwmpasu mwy o ffrydiau gwastraff cyn ehangu'r CMA i'r sector gwastraff.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (82%) yn fodlon bod cwmpas arfaethedig y cynllun yn cwmpasu'r holl dechnolegau priodol. Nododd 18% o'r ymatebwyr yr angen i barhau i asesu technolegau eraill, gan gynnwys: pyrolysis a nwyeiddio; hylosgi gwastraff biogenig wedi'i drin yn gemegol; compostio; tirlenwi; a hylosgi Tanwydd Hedfan Cynaliadwy.

Cytunodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (61%) na ddylai’r cynllun gynnwys cyfleusterau sy'n cynhyrchu monomerau a pholymerau o wastraff i'w hailddefnyddio, gan honni bod yr allyriadau cylch oes yn is o'u cymharu â chynhyrchu cynhyrchion o ddeunyddiau crai. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno, gan nodi bod y cyfleusterau hyn yn dal i gynhyrchu allyriadau. Roedd ymatebwyr yn rhanedig o ran sut y dylid trin cyfleusterau sy'n cynhyrchu tanwyddau a pholymerau/monomerau. Awgrymodd rhai (9%) y dylai’r llywodraeth gomisiynu asesiad o’r effaith carbon cylch oes o'r cyfleusterau hyn.

## Ymateb yr Awdurdod

**Bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn cynnwys allyriadau uniongyrchol o brosesau EfW a llosgi[5] gwastraff.** Mae hyn yn cynnwys triniaethau thermol uwch (ATT) a thechnolegau trosi uwch (ACT), megis prosesau sy'n seiliedig ar nwyeiddio a phyrolysis, gan gynnwys lle mae allbynnau’r prosesau hyn yn cael eu hylosgi ar y safle, a lle mae'r prosesau hyn yn cael eu cynnal at ddibenion cynhyrchu tanwyddau, megis Tanwydd Hedfan Cynaliadwy (SAF). Ni fydd allyriadau o hylosgi oddi ar y safle o'r tanwyddau hyn yng nghwmpas y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol. Ein bwriad yw cynnwys allyriadau ar y safle o bob cyfleuster o faint penodol sy'n llosgi ac yn trin gwastraff yn thermol yng nghwmpas y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.[6]

**Bydd cwmpas y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn cynnwys  prosesau ailgylchu nad ydynt yn fecanyddol (neu brosesau cemegol).** Mae'r Awdurdod yn cydnabod rôl bwysig ailgylchu nad yw'n fecanyddol wrth symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff ac ailgylchu monomerau a pholymerau i'w hailddefnyddio i gefnogi amcanion economi gylchol Llywodraeth

[5] At ddibenion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd 'llosgi' yn golygu ocsideiddio gwastraff yn ogystal â phrosesau trin thermol eraill, megis pyrolysis, nwyeiddio neu brosesau plasma, os bydd unrhyw un o'r sylweddau sy'n deillio o'r driniaeth yn cael eu llosgi wedyn.
[6] Ac eithrio rhai esemptiadau, a drafodir isod (gweler C. 10-15, Esemptiadau)

y DU a Llywodraethau Datganoledig. Mae'r Awdurdod yn ystyried sut i dynnu allyriadau sy'n gysylltiedig ag allbynnau ailgylchu o allyriadau adroddadwy gweithfeydd yr effeithir arnynt ar ôl cynnwys y sector gwastraff yn llawn yn CMA y DU. Byddai hyn yn golygu y byddai allyriadau adroddadwy gweithfeydd o'r fath yn cwmpasu allyriadau sy'n gysylltiedig ag adfer ynni yn unig (h.y. hylosgi gwastraff neu unrhyw allbwn y prosesau ailgylchu nad ydynt yn fecanyddol, neu gynhyrchu tanwyddau), ac y byddai angen i weithredwyr ildio lwfansau i gyflenwi'r allyriadau hyn yn unig. Bydd Ymateb dilynol gan yr Awdurdod sy'n nodi penderfyniadau polisi mewn perthynas â chynnwys y sector gwastraff yn llawn yn CMA y DU, gan gynnwys y cwmpas terfynol, yn darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer gweithfeydd sydd â chymysgedd o allbynnau.

# Trothwy cynnwys, Ysbytai a Statws Allyrwyr Bach a Statws Allyrwyr Bach Iawn

## Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd yr Awdurdod na fyddai'r trothwy mewnbwn thermol presennol 20 megawat (MW) ar gyfer cynnwys unedau hylosgi yn CMA y DU yn addas ar gyfer gwastraff, oherwydd heterogenedd porthiant gwastraff.

Ar wahân, fe wnaethom gadarnhau cynigion y bydd darpariaethau Ysbytai ac Allyrwyr Bach (HSE) ac Allyrwyr Bach Iawn (USE) tebyg sydd ar gael ar hyn o bryd i gyfranogwyr CMA y DU hefyd ar gael i gyfleusterau llosgi gwastraff. Ar gyfer darpariaethau HSE, fe wnaethom gynnig y bydd y trothwy o 25,000 tunnell o $CO_2$ ffosil y flwyddyn yn gymwys, ond na fyddai'r trothwy mewnbwn thermol 35MW yn gymwys. Fe wnaethom hefyd gynnig y bydd y trothwy USE o lai na 2,500 tunnell o $CO_2$ ffosil yn gymwys.

**Cwestiynau**


5. A oes gennych unrhyw bryderon gyda'n safbwynt i beidio â defnyddio'r trothwy mewnbwn thermol 20MW ar gyfer cynnwys yn CMA y DU?
6. A ddylid archwilio trothwy amgen ar gyfer cynnwys yn CMA y DU (e.e. capasiti trwybwn gwastraff) neu a fydd cymhwysedd statws HSE a USE yn diogelu cyfleusterau llai yn ddigonol?
7. A ydych yn cytuno bod y trothwyon arfaethedig ar gyfer statws HSE a USE yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff?
8. A ydych yn cytuno ei bod yn annhebygol y bydd cyfleusterau llai yn cael eu datblygu i ennill cymhwysedd ar gyfer Statws HSE neu USE?
9. Os ydych yn anghytuno â'r trothwyon arfaethedig ar gyfer statws HSE a USE, pa ddewisiadau amgen fyddai'n addas?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau yn cwmpasu'r trothwy cynnwys, Ysbytai a Statws Allyrwyr Bach (HSE) a Statws Allyrwyr Bach Iawn (USE) gan gyfanswm o 157 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad yn nifer yr ymatebion ar draws cwestiynau unigol.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau hyn gan gynnwys 81 o gyrff llywodraeth leol, 28 o weithredwyr EfW, 15 o weithredwyr gwastraff eraill, a 9 o gyrff masnach (Ffigur 2).

**Ffigur 2: Dadansoddiad o ymatebwyr trothwy cynnwys yn ôl categori rhanddeiliaid**




Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr trothwy cynnwys yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi'i rhannu'n 10 categori: Ynni - 3%, Ynni o Wastraff - 18%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 6%, Diwydiant - 4%, Llywodraeth Leol - 52%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 4%, Arall - 2%, Gwastraff Arall - 9%, Corff Masnach - 4%.

Nododd 55% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â safbwynt yr Awdurdod i beidio â defnyddio'r trothwy mewnbwn thermol 20MW ar gyfer gwastraff. Dangosodd yr ymatebion fod heterogenedd gwastraff fel tanwydd, ac amrywioldeb tebygol allyriadau $CO_2$ ffosil, ar drothwy thermol penodol, yn golygu bod trothwy yn seiliedig ar MW yn anaddas.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon heb y trothwy y byddai peiriannau bach sy'n gwasanaethu cymunedau ynysig neu sy'n rheoli gwastraff clinigol neu wastraff peryglus yn cael eu cynnwys yn amhriodol yn CMA y DU.

Argymhellodd mwyafrif bach (59%) o'r ymatebwyr archwilio trothwyon amgen i ddiogelu cyfleusterau bach, fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddewis pennaf arall wedi'i gyflwyno. Roedd rhai o'r dewisiadau amgen yn cynnwys:

- **Trothwy sy'n seiliedig ar $CO_2$:** Awgrymodd 9% o'r ymatebwyr y byddai trothwy cynnwys sy'n seiliedig ar allyriadau carbon yn fwy priodol ar gyfer gwastraff.

- **Trothwy peiriant llosgi gwastraff bach (SWIP):** Awgrymodd 4% o'r ymatebwyr y dylai'r trothwy cynnwys gyd-fynd â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol presennol ar gyfer SWIP yn seiliedig ar gapasiti prosesu.

Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr (55%) yn anghytuno ag addasrwydd cymhwyso'r trothwyon HSE a USE presennol ar gyfer gwastraff. Fodd bynnag, roedd cytuno cyffredinol (79%) ei bod yn annhebygol y bydd cyfleusterau llai yn cael eu hadeiladu'n benodol i ennill statws HSE neu USE. Fel esboniad, dywedodd 40% o randdeiliaid nad yw cyfleusterau bach yn hyfyw yn gyffredinol oni bai eu bod yn rheoli llif gwastraff arbenigol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr (8%) yn pryderu y gallai esemptio rhai cyfleusterau ystumio'r farchnad ac arwain at brosesu mwy o wastraff mewn cyfleusterau llai o faint, llai effeithlon.

Pan ofynnwyd awgrymu trothwyon gwahanol ar gyfer statws HSE a USE, nid oedd unrhyw un dewis pennaf arall yn amlwg. Roedd rhai o'r dewisiadau amgen a gynigiwyd yn cynnwys:

- **Trothwy is:** Dadleuodd 4% o'r ymatebwyr fod y trothwyon arfaethedig yn rhy uchel a dylid eu lleihau, gyda rhai yn awgrymu trothwyon newydd o 2,000 a 5,000 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn ar gyfer USE a HSE yn y drefn honno.
- **Trothwy uwch:** Awgrymodd 1% o'r ymatebwyr y dylid codi'r trothwyon i dargedu cyfleusterau sy'n allyrru dros 50,000 neu 100,000 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.
- **Trothwy Peiriant Llosgi Gwastraff Bach (SWIP):** Awgrymodd 4% o'r ymatebwyr y gallai Awdurdod y DU bennu’r trothwyon HSE a USE i gyd-fynd â'r canllawiau SWIP presennol yn y Rheoliad Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru/Lloegr) a'r Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Yr Alban/Gogledd Iwerddon).

Mae 26% o'r ymatebwyr o’r farn na ddylid cynnwys cyfleusterau EfW yn CMA y DU er mwyn atal beichiau cost ar awdurdodau lleol nad ydynt yn gallu rheoli cynnwys ffosil eu gwastraff. I'r gwrthwyneb, dadleuodd 12% na ddylai fod unrhyw esemptiadau na throthwyon i osgoi ystumiadau o'r farchnad.

## Ymateb yr Awdurdod

### <u>Trothwy cynnwys ar gyfer y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol</u>

**Bydd pob cyfleuster sydd uwchlaw trothwy trwybwn sy'n seiliedig ar dunelledd yn seiliedig ar drothwy Peiriant Llosgi Gwastraff Bach (SWIP) yn y Rheoliad Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol. Ar y sail hon, bydd gweithredwyr llosgyddion gwastraff a chyfleusterau gwastraff-i-danwydd sy'n prosesu tair tunnell yr awr neu fwy o wastraff nad yw'n beryglus, neu 10 tunnell y dydd neu fwy o wastraff peryglus, o fewn y cwmpas y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod barn gymysg rhanddeiliaid ar yr angen am drothwy cynnwys cyffredinol, ac nad oedd unrhyw ddewis arall penodol i'r trothwy 20 MW wedi’i ffafrio. Fodd bynnag, os nad oes terfyn is, byddai angen trwydded CMA ar gyfer llosgi unrhyw wastraff gan endid masnachol, o unrhyw fath ac ar unrhyw raddfa. Er mwyn sicrhau baich rheoleiddiol cymesur ar gyfleusterau llai, rydym o'r farn ei bod yn briodol adlewyrchu'r dirwedd reoleiddiol bresennol ar gyfer gwastraff, sy'n gosod gofynion llymach ar losgyddion gwastraff mwy o faint

sydd â thunelledd trwybwn uwch na thair tunnell yr awr.[7] Rydym yn rhagweld y bydd y trothwy hwn yn dal y mwyafrif helaeth o allyriadau llosgi gwastraff y DU, a'r holl safleoedd EfW sylweddol. Bydd yn atal baich rheoleiddiol anghymesur ar y cyfleusterau lleiaf ac yn cynnig cyd-fynd â'r dirwedd reoleiddiol ehangach ar gyfer gwastraff.

Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod risg gyfyngedig y bydd cyfleusterau'n cael eu hadeiladu o dan y trothwy SWIP i osgoi rhwymedigaethau CMA oherwydd y costau sefydlog uchel sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion amgylcheddol a thrwyddedu ar gyfer llosgi gwastraff. Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu effaith y trothwy hwn ar farchnad llosgi’r DU ac, yn enwedig pan fydd tystiolaeth o gymhellion gwrthnysig neu chwarae â chanlyniadau’r trothwy. Bydd penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r trothwy i'w gynnwys yng nghynllun CMA y DU yn cael ei nodi mewn Ymateb dilynol gan yr Awdurdod.

Ar hyn o bryd o dan CMA y DU, lle cynhelir gweithgaredd rheoleiddiedig ar safle, mae hylosgi tanwyddau mewn unrhyw uned hylosgi a weithredir ar y safle hwnnw wedi'i gynnwys o fewn cwmpas y gweithgaredd rheoleiddiedig, oni bai mai llosgi gwastraff peryglus neu drefol yw prif bwrpas yr uned ac nad yw'r uned yn gwasanaethu'r unedau lle cynhelir y prif weithgaredd rheoleiddiedig yn unig. Ar ôl cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU (ond nid yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol), mae'r Awdurdod yn disgwyl tynnu'r ddarpariaeth hon mewn perthynas ag unedau llosgi. Canlyniad hyn fyddai:

- Os bydd llosgydd oedd wedi'i esemptio yn flaenorol yn cael ei weithredu mewn gweithfa a reoleiddir eisoes gan CMA y DU, bydd yr esemptiad hwnnw'n cael ei godi, a bydd y llosgydd hwn, waeth beth fo'i faint, yn cael ei ystyried wrth fonitro ac adrodd allyriadau'r weithfa honno.
- Os yw llosgydd oedd wedi'i esemptio yn flaenorol yn cael ei weithredu mewn gweithfa sydd â statws HSE ar hyn o bryd, bydd y drwydded HSE yn cael ei hamrywio i gynnwys y llosgydd. Os bydd hyn yn dwyn y weithfa dros y trothwy HSE o 25,000 tunnell $CO_2e$, bydd yn ofynnol i'r weithfa ddychwelyd i'r prif gynllun.[8] Fel arall, gellir addasu targedau allyriadau'r cyfleuster i ystyried allyriadau'r llosgydd hwnnw.

Fel y cyfryw, rydym yn annog gweithredwyr unrhyw unedau sydd wedi'u hesemptio ar hyn o bryd o dan yr amodau hyn i gymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol fel y gallant baratoi'n well ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun yn y dyfodol.

O dan reolau presennol CMA, lle mae gweithgaredd rheoleiddiedig yn bodloni'r disgrifiad o weithgaredd hylosgi (gyda throthwy cyfradd y mewnbwn thermol), ynghyd â gweithgaredd arall nad yw'n cyfeirio at drothwy mewnbwn thermol, mae'r gweithgaredd olaf yn cael blaenoriaeth, sy'n golygu mai’r gweithgaredd hwnnw fydd yn cael ei restru ar y drwydded ac mae'r gofynion monitro ar gyfer y gweithgaredd hwnnw yn gymwys. Wrth gyflwyno'r gweithgaredd gwastraff rheoleiddiedig, rydym yn bwriadu cymhwyso'r canlynol:

- Os yw gweithgaredd rheoleiddiedig yn bodloni'r diffiniad o:

[7] Neu, fel yn y rheoliadau trwyddedu amgylcheddol, 10 tunnell y dydd ar gyfer gwastraff peryglus.
[8] Oni bai bod y weithfa yn darparu gwasanaethau i ysbyty yn bennaf, fel y nodir yn Atodlen 7, paragraff 2 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020

a. Weithgaredd rheoleiddiedig nad yw’n hylosgi a gweithgaredd gwastraff rheoleiddiedig, mae'r gweithgaredd rheoleiddiedig nad yw’n hylosgi yn cael blaenoriaeth.
b. Gweithgaredd rheoleiddiedig hylosgi a gweithgaredd gwastraff rheoleiddiedig, (yn ddarostyngedig i bwynt c.), mae'r gweithgaredd gwastraff rheoleiddiedig yn cael blaenoriaeth.
c. Gweithgaredd hylosgi lle mai pwrpas y gweithgaredd yw gweithgynhyrchu cynnyrch a gweithgaredd gwastraff rheoleiddiedig, mae'r gweithgaredd hylosgi yn cael blaenoriaeth.

Felly, os yw eich gweithfa, er enghraifft, wedi'i chynnwys ar hyn o bryd o dan y CMA oherwydd eich bod yn cyflawni'r gweithgaredd 'Cynhyrchu sment clincer' ac mae eich proses yn cynnwys llosgi gwastraff, byddwch yn parhau i gael eich rheoleiddio o dan y gweithgaredd sment. Os nad yw eich gweithgaredd wedi’i ddal gan y CMA ar hyn o bryd ond bydd yn bodloni'r disgrifiad o weithgaredd gwastraff, byddwch yn cael eich cynnwys o dan y gweithgaredd gwastraff.

Mae'r rheol 'blaenoriaeth' hon ond yn gymwys pan fydd y weithfa gyfan yn cyflawni gweithgaredd sy'n dod o fewn mwy nag un disgrifiad o weithgaredd. Mae'n wahanol i'r sefyllfa lle mae rhannau penodol o'r weithfa yn cyflawni gweithgareddau gwahanol ac, yn yr achos hwnnw, bydd y ddau weithgaredd yn cael eu rhestru ar y drwydded.

Fodd bynnag, bydd penderfyniadau terfynol mewn perthynas â'r sail ar gyfer cynnwys gwastraff yn CMA y DU (gan gynnwys yr agweddau hynny y mae penderfyniadau interim wedi'u gwneud mewn perthynas â nhw at ddibenion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol) yn cael eu nodi mewn Ymateb dilynol gan yr Awdurdod.

## Integreiddio HSE/USE

**At ddibenion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, mae'r Awdurdod yn bwriadu y bydd y meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer Allyrwyr Bach ac Ysbytai (HSE) ac Allyrwyr Bach Iawn (USE) o 25,000/2,500 tunnell o $CO_2$ ffosil y flwyddyn yn gymwys i gyfleusterau gwastraff ar ôl cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU.** Disgwylir i weithredwyr sydd uwchlaw’r prif drothwyon cynnwys (llosgi gwastraff nad yw'n beryglus ar 3 tunnell yr awr neu losgi gwastraff peryglus ar 10 tunnell y dydd) gydag allyriadau ffosil o dan 25,000 tunnell y flwyddyn yn ystod cyfnod sylfaen fod yn gymwys i wneud cais am statws HSE, fel y byddai'r statws yn gymwys o ddyddiad cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU. Disgwylir i weithfeydd sydd ag allyriadau ffosil o dan 2,500 tunnell y flwyddyn yn ystod cyfnod sylfaen allu gwneud cais am statws USE.

Am fanylion am y broses casglu data, ymgeisio a chynefino ar gyfer gweithfeydd HSE/USE, gweler yr adran MRV yn unig isod.

# Esemptiadau

## Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr Awdurdod fwriad i beidio ag esemptio llosgi unrhyw fath o wastraff (gan gynnwys gwastraff peryglus neu wastraff clinigol) rhag CMA y DU, i sicrhau tegwch rhwng gwahanol fathau o wastraff a gwneud y mwyaf o'r allyriadau a gwmpesir gan CMA y DU. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith y byddai pob cyfleuster gwastraff clinigol arbenigol yn gymwys am statws HSE neu USE o dan y cynllun, ac y byddai tua thraean o losgyddion gwastraff peryglus y DU yn gymwys am statws HSE.

Roeddem yn deall yr angen i ystyried goblygiadau peidio ag esemptio'r ffrydiau gwastraff hyn, gyda chanolbwynt arbennig ar reoli gwastraff sy'n cynnwys Llygryddion Organig Parhaus (POPs) a llwybrau datgarboneiddio ar gyfer gwastraff clinigol.

**Cwestiynau**


10. A ydych yn cytuno â'n safbwynt i gynnwys llosgi gwastraff peryglus a gwastraff clinigol yn CMA y DU?
11. Pa opsiynau datgarboneiddio fydd ar gael i losgyddion gwastraff peryglus a gwastraff clinigol a beth fyddai’r amserlen ar gyfer hyn (e.e. yn syth neu yn yr hirdymor)?
12. A fyddai'r dulliau monitro allyriadau a amlinellir yn yr adran 'Monitro ac adrodd' ar gael i losgyddion nad ydynt yn arbenigol hefyd ar gael i losgyddion gwastraff peryglus a gwastraff clinigol o'r un maint?
13. Pe bai llosgi gwastraff peryglus neu wastraff clinigol yn cael ei esemptio o CMA y DU ar unrhyw adeg, a oes perygl y bydd mathau eraill o wastraff yn cael eu cam-labelu fel y naill neu’r llall er mwyn osgoi CMA y DU?
14. A ydych yn cytuno y bydd targedau allyriadau HSE yn cymell llosgyddion gwastraff clinigol i ddatgarboneiddio?
15. A ydych yn cytuno y bydd cwsmeriaid llosgyddion gwastraff clinigol yn gallu cymryd camau i leihau'r cynnwys ffosil yn y gwastraff maen nhw'n ei gynhyrchu a chyflawni eu targedau lleihau gwastraff?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau ar esemptiadau gan gyfanswm o 173 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad yn nifer yr ymatebion ar draws cwestiynau unigol.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau hyn, gan gynnwys 95 o gyrff llywodraeth leol, 23 o weithredwyr EfW, 29 o weithredwyr gwastraff eraill, a 10 o gyrff masnach (Ffigur 3).

**Ffigur 3 Dadansoddiad o ymatebwyr esemptiadau yn ôl categori rhanddeiliaid**




Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr esemptiadau yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi'i rhannu'n 10 categori: Ynni - 3%, Ynni o Wastraff - 13%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 3%, Diwydiant - 3%, Llywodraeth Leol - 55%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 4%, Arall - 3%, Gwastraff Arall - 11%, Corff Masnach - 6%.

Roedd ymatebwyr i raddau helaeth yn gwrthwynebu'r cynnig i gynnwys llosgi gwastraff peryglus a gwastraff clinigol yn CMA y DU (74%). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr gofal iechyd, clinigol a Chyrff Anllywodraethol yn cytuno â'r safbwynt i'w cynnwys. Roedd dadleuon yn erbyn eu cynnwys yn cynnwys:

- **Dim dull amgen o waredu:** Nododd 66% o'r ymatebwyr nad oes dewisiadau amgen ar gyfer gwaredu'r llif gwastraff hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn tynnu sylw at y gofynion cyfreithiol presennol ar gyfer llosgi'r deunyddiau hyn.
- **Opsiynau cyfyngedig neu ddim opsiynau datgarboneiddio:** Awgrymodd 57% o'r ymatebwyr fod opsiynau cyfyngedig neu ddim opsiynau datgarboneiddio ar gael ar gyfer y deunyddiau hyn. Dadleuodd rhai ymatebwyr fod maint a lleoliad llosgyddion gwastraff arbenigol yn debygol o wneud gosod technolegau Dal a Storio Carbon (CCS) yn anhyfyw.
- **Perygl allforio:** Roedd 28% o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai cynnwys gwastraff peryglus yn CMA y DU gymell allforio gwastraff i'w drin, o ystyried esemptio gwastraff peryglus o CMA yr UE.

Pan ofynnwyd awgrymu opsiynau i ddatgarboneiddio, awgrymodd 56% o'r ymatebwyr dargedu cynhyrchwyr. Roedd awgrymiadau eraill, er bod llai o gefnogaeth iddynt, yn cynnwys gwell gwahanu ac ailgylchu gwastraff, buddsoddi mewn CCS, ac ocsidiad dŵr uwchgritigol.

Mae 68% o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai targedau allyriadau HSE yn cymell llosgyddion gwastraff clinigol na'u cwsmeriaid i ddatgarboneiddio, yn bennaf oherwydd diffyg opsiynau

datgarboneiddio. Fodd bynnag, cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr gofal iechyd, clinigol a chyrff anllywodraethol y byddai targedau yn cymell datgarboneiddio.

Roedd y prif resymau a gynigiwyd gan ymatebwyr a anghytunodd yn cynnwys:

- **Maint cyfleusterau:** Dadleuodd 23% o'r ymatebwyr fod maint bach y rhan fwyaf o losgyddion gwastraff clinigol yn gwneud y costau cyfalaf ymlaen llaw sy'n ofynnol i fuddsoddi mewn technolegau datgarboneiddio yn anhyfyw.
- **Defnydd angenrheidiol o ddeunyddiau untro mewn gofal iechyd:** Cyfeiriodd 22% o'r ymatebwyr at y gofyniad i bractisau clinigol ddefnyddio deunyddiau plastig untro wedi’u diheintio nad oes dewisiadau amgen eraill ar eu cyfer.

Ymhlith y rhai a fynegodd hyder yn nichonoldeb datgarboneiddio, roedd y prif gyfiawnhad yn cynnwys:

- **Mwy o wahanu:** Dadleuodd 16% o'r ymatebwyr y gall cwsmeriaid llosgyddion gwastraff clinigol leihau cynnwys ffosil eu gwastraff trwy wella gwahanu mathau o wastraff a defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu.
- **Gallai cosbau ariannol sbarduno gweithredu:** Dywedodd 15% o'r ymatebwyr y gallai cosbau ariannol gymell cyfleusterau i ddatgarboneiddio, ond rhybuddiodd llawer y gallai costau uchel arwain at weithgarwch anghyfreithlon, sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus i osgoi canlyniadau anfwriadol.

Nid yw 72% o'r ymatebwyr o’r farn bod cam-labelu gwastraff yn risg sylweddol pe bai gwastraff peryglus neu wastraff clinigol wedi'u hesemptio rhag CMA y DU. Y prif resymau a roddwyd oedd y costau prosesu sylweddol uwch ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff clinigol o'u cymharu â gwastraff nad yw'n arbenigol (49%), ac y bydd y gofynion rheoleiddio presennol a'r costau cydymffurfio yn lliniaru'r risg o gam-labelu (29%).

Pan ofynnwyd a fyddai'r dulliau monitro allyriadau a amlinellir yn yr adran 'Monitro ac Adrodd' hefyd yn gymwys i losgyddion gwastraff peryglus a gwastraff clinigol o'r un maint, atebodd 63% o'r ymatebwyr y byddant. Ymhlith y rhai oedd yn anghytuno, y prif resymau oedd pryderon am risgiau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â samplu gwastraff peryglus a gwastraff clinigol, yn ogystal â'r potensial i ddeunyddiau ymbelydrol mewn gwastraff arbenigol amharu ar fethodolegau Carbon-14.

## Ymateb yr Awdurdod

**Bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol ar gael i losgyddion gwastraff peryglus a gwastraff clinigol, ar y sail nad ydym ar hyn o bryd yn bwriadu eu hesemptio o'r cynllun llawn, ond bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei hadolygu.** Roedd ymatebwyr y sector Iechyd a Chlinigol i raddau helaeth yn cefnogi cynnwys gwastraff clinigol, gan nodi cyfleoedd i ddatgarboneiddio trwy driniaethau amgen a gwahanu llif ffynhonnell.

Rydym yn rhagweld y bydd effeithiau ar losgi gwastraff clinigol yn gyfyngedig gan y bydd y mwyafrif helaeth o losgyddion gwastraff clinigol yn gymwys am statws USE neu HSE. Mae rhywfaint o wastraff clinigol neu ddiadell gwastraff clinigol yn cael ei drin mewn llosgyddion

gwastraff trefol cyffredin a bydd yn cael ei amlygu i gostau uwch. Bydd eu cynnwys yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn galluogi'r Awdurdod i ddeall yn well unrhyw effeithiau posibl ar y sector iechyd ac ailasesu os oes angen. Byddwn yn sicrhau bod gofynion monitro yn gymesur â natur a maint cyfleusterau, ac nad ydynt yn peri risgiau iechyd a diogelwch afresymol.

**Bydd llosgyddion tymheredd uchel sy'n prosesu gwastraff peryglus yn bennaf yn cael eu hesemptio o'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.** Mae hyn yn angenrheidiol i ddiogelu capasiti llosgi gwastraff peryglus y DU a lliniaru'r risg o allforio gwastraff peryglus. O ystyried cost uchel llosgi gwastraff peryglus, nid ydym yn poeni am y risgiau o gam-labelu nac am droseddau gwastraff, fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn. At ddibenion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd yr esemptiad ar gyfer llosgi gwastraff peryglus yn gymwys i gyfleusterau sy'n amlwg yn gallu gweithredu ar dymheredd o 1,100°C am 2 eiliad ac y mae eu mewnbwn gwastraff yn cynnwys:

- o leiaf 80% o wastraff peryglus; a
- dim mwy na 20% o wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus gofal iechyd; a
- dim mwy nag 1% o bren gwastraff peryglus.

**Bydd Llygryddion Organig Parhaus (POPs) yn cael eu cynnwys yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad ynghylch nifer y POPs, a'r gofyniad cyfreithiol i losgi heb fod unrhyw opsiynau gwaredu eraill ar gael. Byddwn yn parhau i adolygu’r sefyllfa hon yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, gan ystyried y risg o gam-labelu a datblygu dulliau cadarn i wahanu gwastraff POPs yn gywir.

# Cymryd rhan yn y cynllun

*Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar bedwar testun i lywio datblygiad polisi'r llywodraeth ar gymryd rhan yn y cynllun. Y rhain oedd:*

- Y gyfundrefn reoleiddiol a gofynion gweithredwyr (Cwestiwn 19)
- Cyfnod MRV yn unig (Cwestiynau 20-27)
- Gofynion monitro ac adrodd (Cwestiynau 28-32)
- Canllawiau (33-35)

## Y gyfundrefn reoleiddiol a gofynion gweithredwyr

### Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr Awdurdod fwriad i gymhwyso'r un darpariaethau rheoleiddiol sy'n bodoli ar gyfer sectorau a gwmpesir ar hyn o bryd gan CMA y DU (cylch cydymffurfio, gofynion trwyddedau, gofynion cynllun monitro a chosbau) i gyfleusterau llosgi gwastraff o 1 Ionawr 2028 ymlaen. Roeddem hefyd yn bwriadu i'r cosbau am fethu ag ildio lwfansau digonol erbyn y terfyn amser perthnasol fod yr un fath â'r rhai ar gyfer gweithredwyr presennol, yn ogystal â chosbau sy'n ymwneud â thargedau allyriadau ar gyfer gweithfeydd â statws HSE. Fe wnaethom nodi y bydd y gofynion ar gyfer unrhyw gyfnod MRV yn unig yn dibynnu ar a yw'r cyfnod yn wirfoddol neu'n fandadol.

**Cwestiynau**


19. A ydych yn cytuno ei bod yn ymarferol i ofynion rheoleiddiol presennol o dan y cynllun, megis y cylch cydymffurfio, gofynion trwyddedau, gofynion cynllun monitro a chosbau, fod yn gymwys i'r sector gwastraff?

### Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd y cwestiwn ymgynghori ar y gyfundrefn reoleiddiol a gofynion gweithredwyr gan gyfanswm o 142 o ymatebwyr.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau hyn, gan gynnwys 82 o Gyrff llywodraeth leol, 21 o Weithredwyr Ynni o Wastraff, 13 o Weithredwyr gwastraff eraill, a 6 o Gyrff diwydiant (Ffigur 4).

**Ffigur 4 Dadansoddiad o ymatebwyr i’r gyfundrefn reoleiddiol yn ôl categori rhanddeiliaid**




Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr i’r gyfundrefn reoleiddiol yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi’i rhannu’n 10 categori: Ynni - 3%, Ynni o Wastraff - 15%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 4%, Diwydiant - 4%, Llywodraeth Leol - 58%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 3%, Arall - 2%, Gwastraff Arall - 9%, Corff Masnach - 4%.

Roedd ymatebwyr yn rhanedig ynghylch a all gofynion rheoleiddiol presennol o dan y cynllun fod yn gymwys i'r sector gwastraff, gyda mwyafrif (65%) yn cytuno eu bod yn ymarferol. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr o'r sector EfW a sectorau gwastraff eraill yn anghytuno.

Roedd y pryderon a nodwyd yn gyffredin ynghylch cymhwyso’r gofynion rheoleiddiol presennol i'r sector gwastraff yn cynnwys:

- **Cosbau:** Roedd 19% o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai cosbau am fethu ag ildio lwfansau gael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol.
- **Cylchoedd cydymffurfio:** Cyfeiriodd 19% o'r ymatebwyr at y ffaith y gallai anghydnawsedd rhwng cylch cydymffurfio CMA y DU, sy’n seiliedig ar flynyddoedd calendr, a gosod cyllidebau awdurdodau lleol ac amserlenni llywodraethu, sy’n seiliedig ar flynyddoedd ariannol, achosi problemau i gynllunio cyllidebau awdurdodau lleol.
- **Costau cymryd rhan:** Roedd 16% o'r ymatebwyr yn pryderu y bydd costau uchel cymryd rhan yn y cynllun (e.e. costau monitro ac adrodd) yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol.
- **Capasiti rheoleiddwyr:** Roedd 11% o'r ymatebwyr yn pryderu nad oes gan reoleiddwyr y capasiti i gyflenwi'r trwyddedau gofynnol mewn pryd.

### Ymateb yr Awdurdod

**Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn bwriadu y bydd gofynion rheoleiddiol safonol CMA y DU ar gyfer gweithfeydd llonydd (cylch cydymffurfio, gofynion trwyddedau, gofynion cynllun monitro a chosbau) yn gymwys i'r sector gwastraff ar ôl ei gynnwys yn y cynllun.**

**Fel y cyfryw, mae'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol wedi'i gynllunio yn unol â gofynion rheoleiddiol CMA presennol (er na fydd y rhwymedigaeth ildio yn gymwys). Fodd bynnag, gan y bydd y cyfnod MRV yn unig yn wirfoddol, ni fydd gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys cosbau, yn cael eu gorfodi.**

Rydym yn nodi pryderon ymatebwyr ynghylch gofynion rheoleiddiol CMA y DU ar gyfer gweithredwyr gwastraff: yn benodol, effaith cosbau, costau monitro, a chyfnod cydymffurfio CMA y DU ar awdurdodau lleol. Rydym yn cydnabod bod y rhain yn unol â phryderon ehangach ynghylch effaith cost ehangu CMA y DU i losgi gwastraff ar awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn nodi pryderon ynghylch capasiti rheoleiddwyr. Mae'r rheoleiddwyr yn bartneriaid allweddol yr Awdurdod, ac rydym wedi gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau y bydd gan reoleiddwyr ddigon o adnoddau i brosesu a chynefino gweithredwyr o fewn yr amserlenni a nodwyd.

Am ragor o fanylion ar sut y bydd gofynion rheoleiddiol yn gymwys yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, gweler yr adran ganlynol ar y cyfnod MRV yn unig.

## Cyfnod MRV yn unig

### Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr Awdurdod fwriad i ehangu CMA y DU i gyfleusterau llosgi gwastraff yn 2026, sy'n cynnwys cyfnod graddol pontio MRV 2 flynedd o 1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr 2027. Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y bydd y cyfnod MRV yn unig yn galluogi gweithredwyr i ddeall y cynllun yn well ac yn helpu i lywio ein dull o ymdrin ag MRV. Bydd data a gesglir yn ystod y cyfnod hwn yn ein galluogi i wirio ein taflwybr allyriadau cyson sero net, gan lywio penderfyniadau cap ar ôl 2030. Fe wnaethom nodi y gallai'r cyfnod hwn fod yn fandadol neu'n wirfoddol.

**Cwestiynau**

20. A ydych yn cytuno mai cyfnod MRV yn unig yw'r ffordd orau o gyflawni amcanion cyfnod graddol ar gyfer y sector hwn? Sut bydd gweithredwyr a chwsmeriaid yn defnyddio unrhyw ddata o'r Cyfnod MRV yn unig?

21. Ar gyfer cwsmeriaid a gweithredwyr, a fydd gwybod beth fydd y costau disgwyliedig yn gynharach na’r gweithredu llawn yn darparu cymhelliant cynnar i leihau eich amlygiad i'r pris carbon?


22. Os yw'r cyfnod MRV yn unig yn fandadol (Opsiwn 1): A ydych yn cytuno y dylai cyfleusterau llosgi gwastraff fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion MRV ar gyfer 2026-28 ag y byddant yn ddarostyngedig iddynt o 2028 ymlaen (e.e. adrodd allyriadau ar gyfer pob uned hylosgi ar y safle)
23. Os yw'r cyfnod MRV yn unig yn fandadol (Opsiwn 1): A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r gofyniad i bob cyfleuster llosgi gwastraff fodloni gofynion MRV, cyn gwneud cais am statws HSE/USE?
24. Os yw'r cyfnod MRV yn unig yn wirfoddol (Opsiwn 2): Pa mor debygol ydyw yn eich barn chi y byddai gweithredwyr yn monitro eu hallyriadau ffosil?
25. Os yw'r cyfnod MRV yn unig yn wirfoddol (Opsiwn 2): Pa mor debygol ydyw yn eich barn chi y byddai gweithredwyr yn: a) rhannu eu hallyriadau â chwsmeriaid fel eu bod yn cael eu hysbysu'n well am gostau posibl yn y dyfodol, a b) rhannu eu hallyriadau gydag Awdurdod CMA y DU i lywio penderfyniadau cap a darparu tystiolaeth o gymhwysedd statws HSE neu USE?
26. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cyfnod pontio MRV yn unig, a'r naill neu'r llall o'r opsiynau a nodwyd?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau yn cwmpasu'r cyfnod MRV yn unig gan gyfanswm o 179 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws cwestiynau.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau MRV yn unig hyn, gan gynnwys 97 o gyrff llywodraeth leol, 29 o weithredwyr EfW, ac 17 o randdeiliaid o rannau eraill o’r sector gwastraff (Ffigur 5).

**Ffigur 5 Dadansoddiad o ymatebwyr i'r cyfnod MRV yn unig yn ôl categori rhanddeiliaid**





Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr i'r cyfnod MRV yn unig yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi'i rhannu'n 10 categori: Ynni - 4%, Ynni o Wastraff - 16%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 2%, Diwydiant - 3%, Llywodraeth Leol - 54%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 3%, Arall - 3%, Gwastraff Arall - 10%, Corff Masnach - 5%.

Cytunodd bron pob ymatebydd (97%) â chyfnod MRV yn unig ar gyfer ehangu'r cwmpas i wastraff.

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y bydd data a gesglir o gyfnod MRV yn unig yn fuddiol i'r sector. Fe wnaethant hefyd awgrymu cyfres o gymwysiadau posibl ar gyfer y data a dangosir y rhain yn Ffigur 6.

**Ffigur 6: Defnyddiau a awgrymwyd ar gyfer data cyfnod MRV yn unig**



Siart bar sy'n dangos amlder yr awgrymiadau ar gyfer data cyfnod MRV yn unig. Llywio rhyngweithiadau â pholisïau eraill (e.e. Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr - EPR) – 10, cytuno ar gontractau a threfniadau trosglwyddo – 49, rhagfynegi costau a chynllunio ariannol – 119, darparu data allyriadau a rhagfynegiadau lwfansau – 56, profi methodoleg MRV a gofynion cydymffurfio – 47, pennu cynnwys gwastraff – 19, darparu tryloywder – 31, llywio strategaethau lliniaru – 52, a llywio penderfyniadau buddsoddi – 45.

Fodd bynnag, cododd rhanddeiliaid ystod o ystyriaethau a allai effeithio ar gyflawni llwyddiannus:


- **Costau i awdurdodau lleol:** Mae 52% o'r ymatebwyr yn pryderu y bydd y cyfnod MRV yn unig yn arwain at drosglwyddo costau ychwanegol i awdurdodau lleol.
- **Amserlenni:** Mae 36% o'r ymatebwyr yn pryderu nad yw'r amserlen weithredu a awgrymir yn caniatáu digon o amser i weithredwyr baratoi'n llawn ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai cyfnod MRV yn unig hirach, neu gyfnod pontio estynedig yn caniatáu paratoi’n well, mwy o amser ar gyfer datgarboneiddio a chyd-fynd â pholisïau gwastraff eraill.
- **Argaeledd technoleg:** Mae 24% o'r ymatebwyr yn pryderu am argaeledd technolegau monitro sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r cyfnod MRV yn unig. Yn benodol, codwyd pryderon am yr amserlen ar gyfer cyflwyno MRV sy'n seiliedig ar Carbon-14 a chapasiti labordai ar gyfer dadansoddi. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon hefyd am gostau uchel y technolegau hyn, gan awgrymu y dylai'r Llywodraeth ystyried cymhwyso ffactorau allyriadau safonol ar gyfer ffrydiau cyfansoddiad gwastraff penodol yn lle hynny.
- **Adnoddau rheoleiddwyr:** Cododd 18% o randdeiliaid yr angen i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol perthnasol ar waith a bod adnoddau rheoleiddwyr priodol ar gael er mwyn i gyfnod MRV yn unig fod yn effeithiol.

Nododd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (85%) y bydd gwybod beth fydd y costau disgwyliedig yn gynharach na'r gweithredu llawn yn darparu cymhelliant cynnar i leihau eu hamlygiad i'r pris carbon. Fodd bynnag, codwyd pryderon am effeithiolrwydd y cymhelliant hwn, gyda 69% o awdurdodau lleol yn nodi diffyg opsiynau datgarboneiddio.

O'r ymatebwyr a nododd ddewis, roedd mwyafrif yn ffafrio cyfnod MRV yn unig mandadol dros gyfnod MRV yn unig gwirfoddol (96%). Nododd rhanddeiliaid fod MRV mandadol yn ofynnol i ddatblygu'r broses MRV a nodi unrhyw broblemau cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU. Codwyd pryderon y byddai cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn debygol o arwain at fonitro anghyson, set ddata anghynrychioliadol, a darlun annibynadwy o amlygiad y sector i CMA.

Roedd gan ymatebwyr safbwyntiau cymysg ar y tebygolrwydd o gymryd rhan mewn cyfnod MRV yn unig gwirfoddol. O'r 87 ymateb oedd wedi mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater hwn, roedd rhaniad cyfartal rhwng "cymryd rhan yn debygol" "cymryd rhan yn amrywiadwy" a "chymryd rhan yn annhebygol". Fodd bynnag, roedd cyfran uwch o randdeiliaid y sector gwastraff o’r farn y byddai cymryd rhan yn debygol (Ffigur 7).

**Ffigur 7: Tebygolrwydd o gymryd rhan mewn cynllun MRV yn unig gwirfoddol (sector gwastraff)**





Yn seiliedig ar y 23 ymateb gan randdeiliaid Ynni o Wastraff a Gwastraff Arall i gwestiwn 25 a gyfeiriodd yn uniongyrchol at un o'r opsiynau.

Siart hanner toesen yn dangos tebygolrwydd cymryd rhan rhanddeiliaid Ynni o Wastraff a Gwastraff Arall mewn cynllun MRV yn unig gwirfoddol. Mae wedi'i rhannu'n 3 chategori: Tebygol - 52%, Amrywiadwy - 17%, ac Annhebygol - 30%.

Roedd gan ymatebwyr safbwyntiau cymysg ar y tebygolrwydd y bydd gweithredwyr yn rhannu eu data o dan gyfnod MRV yn unig gwirfoddol, ond unwaith eto roedd gweithredwyr yn fwy optimistaidd y byddai data yn cael ei rannu (Ffigur 8).

**Ffigur 8: Tebygolrwydd y bydd gweithredwyr yn rhannu eu data o dan gyfnod MRV yn unig gwirfoddol (rhanddeiliaid gwastraff)**




Yn seiliedig ar y 27 ymateb i gwestiwn 26a a 22 ymateb i gwestiwn 26b gan randdeiliaid Ynni o Wastraff a Gwastraff Arall a gyfeiriodd yn uniongyrchol at un o'r opsiynau.

Dau siart hanner toesen yn dangos y tebygolrwydd y bydd rhanddeiliaid yn rhannu data gyda chwsmeriaid Awdurdod CMA y DU. Maent wedi'u rhannu'n dri chategori, Siart 1 -

Cwsmeriaid: Tebygol – 63%; Amrywiadwy – 4%; ac Annhebygol – 33%, Siart 2 – Awdurdod CMA y DU: Tebygol - 64%, Amrywiadwy - 14%, ac Annhebygol - 23%.

Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (67%), os yw'r cyfnod MRV yn unig yn fandadol, y dylai cyfleusterau llosgi gwastraff fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion MRV ar gyfer y cyfnod MRV yn unig ag y byddant yn ddarostyngedig iddynt pan fydd y sector gwastraff yn cael ei gynnwys yn CMA y DU. Awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylai fod cosbau am ddiffyg cydymffurfio yn ystod y cyfnod MRV yn unig.

## Ymateb yr Awdurdod

### Cyfnod MRV yn unig

**Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth cyfnod MRV yn unig i weithredwyr cyfleusterau llosgi, eu cwsmeriaid, a'r gadwyn gyflenwi wastraff ehangach. Fel y cyfryw, bydd cyfnod MRV yn unig gwirfoddol a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2026.**

**Mae'r Awdurdod yn dymuno defnyddio'r cyfnod hwn i adolygu methodolegau MRV, casglu data ac archwilio cysylltiad posibl rhwng MRV a throsglwyddo costau CMA. Bydd cymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig cychwynnol yn wirfoddol wrth i ni brofi dulliau cyn gwneud penderfyniadau polisi terfynol. Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sector yn arwain at y cyfnod MRV yn unig ac yn ystod y cyfnod hwnnw.**

Ers yr ymgynghoriad, mae'r Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ystyried y dull MRV mwyaf hyfyw. Mae segmentau o'r diwydiant llosgi gwastraff wedi gwneud sylwadau cryf o blaid dull cenedlaethol, seiliedig ar ffactorau allyriadau o ymdrin ag MRV, gyda chostau CMA ar gyfer pob cwsmer wedi'u diffinio ymlaen llaw yn unol â bandiau sefydledig yn seiliedig ar seilwaith ailgylchu. Mae cynigion hefyd wedi'u gwneud ar gyfer ffactorau allyriadau sy’n seiliedig ar ddadansoddi cyfansoddiad a data ailgylchu'r DU.

Mae'r Awdurdod yn ystyried ystod o fethodolegau posibl gan gynnwys dulliau cenedlaethol sy'n seiliedig ar ffactorau allyriadau ar gyfer MRV CMA. Rydym yn ymwybodol y gallai system wedi'i chynllunio'n dda sy'n seiliedig ar ffactorau allyriadau, wedi’i hategu gan raddnodi cadarn yn erbyn monitro allyriadau Carbon-14 a monitro allyriadau seiliedig ar staciau gorau o’u math, atgyfnerthu'r signal datgarboneiddio a fwriedir gan y pris carbon.

Er nad oes unrhyw opsiwn yn darparu sicrwydd 100%, mae dadansoddiad Carbon-14 ynghyd â Systemau Monitro Allyriadau Parhaus (CEMS) yn darparu'r cywirdeb gorau a'r cysondeb mwyaf o'r methodolegau sydd ar gael. Lle bo hynny'n bosibl, bydd ffactorau allyriadau yn cael eu meincnodi yn erbyn allyriadau a fesurir. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd ffactorau allyriadau yn tueddu i fod yn geidwadol, er mwyn sicrhau nad oes tanadrodd allyriadau.

Mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i sefydlu, profi ac asesu effaith system genedlaethol sy'n seiliedig ar ffactorau allyriadau. Felly, mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol i ystyried dulliau MRV cyn gwneud penderfyniadau polisi terfynol.

Yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd yr Awdurdod yn asesu dulliau posibl sy'n seiliedig ar ffactorau allyriadau yn erbyn data a dderbynnir gan gyfranogwyr ac yn gwneud penderfyniad terfynol ar ddull MRV. Yn ystod y broses hon, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, ar lefel gweithredwyr a chwsmeriaid (yn enwedig awdurdodau lleol), ac ar draws pob un o bedair gwlad y DU, i sicrhau bod y dull MRV yn addas ar gyfer pob cyfranogwr.

## Gweithredu'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr yr ymgynghoriad y bydd cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn arwain at fonitro anghyson, set ddata anghynrychioliadol, a darlun annibynadwy o amlygiad y sector i CMA. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn adlewyrchu gofynion rheoleiddiol safonol CMA y DU ar gyfer gweithfeydd llonydd cyhyd ag y bo modd fel bod cyfranogwyr yn cael darlun realistig o'u hamlygiad i CMA ac yn meithrin profiad o brosesau CMA y DU.

**Bydd gan gyfranogwyr fynediad at systemau a dogfennaeth CMA y DU.** Trwy gymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd cyfranogwyr yn sicrhau cynllun monitro gwirfoddol a fydd yn adlewyrchu eu gofynion monitro arfaethedig. Byddant yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â rheoleiddwyr i gytuno ar ofynion monitro cyn cychwyn. Bydd gan gyfranogwyr hefyd fynediad at gyfrif Rheoli eich CMA (METS), a fydd yn caniatáu iddynt ymgysylltu â'r cynllun a chyflwyno adroddiadau allyriadau blynyddol fel yn y prif CMA.

**Bydd gan y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol ymgysylltiad llawn â rheoleiddwyr, gyda chostau rheoleiddwyr yn cael eu hariannu gan y llywodraethau priodol.** Er mwyn annog cymryd rhan, bydd gan gyfranogwyr fynediad llawn at gymorth rheoleiddwyr yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol heb fynd i gostau cynefino na chostau cynnal a chadw rheoleiddwyr.

Ni fydd gwirio allyriadau yn fandadol, ond bydd gweithredwyr yn cael eu hannog i wirio eu hadroddiadau allyriadau i wella cynefindra â phroses MRV CMA y DU.

Fel uchod, rydym yn bwriadu y bydd gofynion y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn adlewyrchu'r gofynion rheoleiddiol cyhyd ag y bo modd pan fydd y sector gwastraff wedi'i gynnwys yn CMA y DU. Bydd gweithredwyr yn cytuno ar ddull monitro yn seiliedig ar faint ac amodau eu gweithfa, byddant yn dod yn ymwybodol o unrhyw addasiadau a allai fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â gofynion CMA y DU llawn, a byddant yn cael cyfle i gytuno ar fesurau lliniaru a gwelliannau gyda'r rheoleiddiwr. Ar ôl cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, rydym yn bwriadu y bydd y cynllun monitro gwirfoddol yn cael ei ddefnyddio i boblogi cynllun monitro llawn CMA y DU pan fydd gweithredwyr yn gwneud cais am drwydded.

Gofynnir i gyfranogwyr gyflwyno data ychwanegol ar lifoedd gwastraff i reoleiddwyr a fydd yn casglu'r wybodaeth hon ar ran yr Awdurdod. Bydd y data hwn yn cefnogi datblygu ffactorau allyriadau. Yn ogystal â data allyriadau lefel uchel, gofynnir am ddata ar dunelli gwastraff, ffrydiau ffynhonnell gwastraff, a monitro / samplu allyriadau ategol, lle bo hynny ar gael. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a mireinio dulliau sy'n seiliedig ar ffactorau allyriadau a bydd yn cael ei drin a'i brosesu'n gyfrinachol. Er mwyn cefnogi llunio polisi'n well, mae'n bosibl y bydd gofyn am y data hwn cyn y terfyn amser adrodd arferol ar gyfer CMA y DU (er enghraifft, bob chwarter).

**Ni fydd unrhyw gosbau na gorfodi yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol.** Gan fod cymryd rhan yn wirfoddol, ni fydd rheoleiddwyr yn cymryd camau gorfodi yn erbyn y sawl sy'n cymryd rhan.

**I grynhoi, yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, gofynnir i gyfranogwyr:**

- Wneud cais am gynllun monitro gwirfoddol.
- Monitro eu hallyriadau yn unol â'r darpariaethau y cytunwyd arnynt yn eu cynllun gwirfoddol.
- Amrywio eu cynllun gwirfoddol pan fydd newidiadau perthnasol yn digwydd.
- Cyflwyno adroddiad allyriadau blynyddol sy'n cynnwys cyfanswm yr allyriadau ar gyfer eu cyfleuster, yn unol â'r amserlen adrodd ar gyfer y prif gynllun.
- Lle bo hynny'n berthnasol, cyflwyno data i gefnogi datblygu ffactorau allyriadau o fewn amserlen y cytunwyd arno (e.e. bob chwarter) (bydd y data hwn yn cael ei drin yn gyfrinachol gan Awdurdod CMA y DU a rheoleiddwyr).
- Gwirio eu hadroddiadau allyriadau gyda dilyswyr CMA, er mwyn cael profiad o'r broses ddilysu.

## Data sylfaen HSE/USE yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol

Cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, gall gweithredwyr gweithfeydd cymwys gyflwyno ceisiadau am statws HSE/USE ar sail data allyriadau 3 blynedd a gyflwynir gan weithredwyr. Er mwyn sicrhau tegwch, ni fydd statws HSE/USE yn amodol ar gymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol. Rhaid i'r data ddangos tystiolaeth bod allyriadau yn ystod cyfnod sylfaen yn is na'r trothwyon $CO_2$ ffosil 25,000 / 2,500 tunnell. Gofynnir i weithredwyr ddefnyddio data o'u Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol (APR)[9] neu'r adroddiadau allyriadau/gweithgarwch cyfatebol sy'n ofynnol yn yr Alban/Gogledd Iwerddon at y diben hwn. Ni fydd unrhyw ofynion dilysu ychwanegol.

Bydd yr Awdurdod yn pennu ffactorau cenedlaethol priodol i godi allyriadau $CO_2$ ffosil o'r data hwn, gan gynnwys ar gyfer gwastraff clinigol. Bydd y ffactorau hyn wedyn yn cael eu cymhwyso i'r mesuriadau tunelledd/$CO_2$ a gofnodwyd trwy APR.

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod safonau adrodd a ddefnyddir ar gyfer APR yn amrywio ar draws y sector. Rydym yn ystyried sut i gyfrif am unrhyw ansicrwydd posibl, gan gynnwys trwy sefydlu isafswm safonau adrodd mewn achosion lle cyflwynir data $CO_2$.

Bydd gweithredwyr sy'n cymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn gallu cytuno ar gynllun monitro sy'n benodol i'r weithfa yn 2026. Bydd hyn yn galluogi rheoleiddwyr i ystyried ffactorau mwy penodol os gall y cyfleuster ddarparu tystiolaeth nad yw'r ffactorau ffosil cenedlaethol yn addas ar gyfer eu ffrydiau gwastraff. Yna gellid cymhwyso ffactorau penodol i ddata APR hanesyddol (e.e. 2024-2025) os yw'n briodol.

[9] Fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliad Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru/Lloegr)

Ein bwriad yw y bydd gweithredwyr nad yw eu hallyriadau yn uwch na'r trothwyon HSE/USE o 25,000 a 2,500 tunnell o $CO_2$ ffosil y flwyddyn yn y 3 blynedd cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU yn cael eu hystyried yn gymwys am statws HSE/USE a bydd ganddynt hawl i gychwyn yng nghanol cyfnod ar ôl i'r sector gwastraff gael ei gynnwys yn CMA y DU.

Bydd yr Awdurdod a'r rheoleiddwyr yn darparu canllawiau pellach ar y dull HSE/USE maes o law.

# Gofynion monitro ac adrodd

## Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr Awdurdod y dulliau monitro allyriadau sydd ar gael i gyfleusterau llosgi gwastraff i bennu rhaniad ffosil a biogenig eu hallyriadau. Roedd hyn yn seiliedig ar adroddiad allanol gan Ricardo yn asesu cywirdeb, cost ac ymarferoldeb y dulliau canlynol: samplu a dadansoddi porthiant, samplu a dadansoddi nwyon ffliw, a dulliau rhagfynegi (cydbwysedd).[10]

Fe wnaethom gynnig bod gofynion monitro ac adrodd ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff yn cyd-fynd â'r haenau sy'n gymwys i sectorau presennol a gwmpesir gan CMA y DU. Fe wnaethom ymgynghori ar addasrwydd dau ddull haenog presennol:

> Roedd Opsiwn 1 yn seiliedig ar haenau amrediadau ansicrwydd a neilltuir ar gyfer dulliau seiliedig ar fesuriadau ar gyfer pennu cyfanswm allyriadau $CO_2$ mewn gweithfeydd.
>
> Roedd Opsiwn 2 yn seiliedig ar haenau dull methodolegol a neilltuir i gyfleusterau ar gyfer pennu ffracsiynau biomas yn y tanwyddau y maent yn eu llosgi.

**Cwestiynau**

28. A ydych yn cytuno y dylid defnyddio dull haenog wrth ymdrin â gofynion monitro ac adrodd o dan CMA y DU?

29. A ydych o’r farn y byddai Opsiwn 1 yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff?

30. A ydych yn cytuno â'n hamcangyfrifon yn Ffigur 4 ar sut y gallai'r dulliau monitro allyriadau sydd ar gael ar gyfer y sector gydberthyn â'r amrediadau ansicrwydd ar gyfer pob haen yn Opsiwn 1?

[10] Adroddiad 'Opsiynau MRV ar gyfer cynnwys gweithfeydd Ynni o Wastraff a Llosgyddion Gwastraff o fewn CMA y DU' gan Ricardo ar gael yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66a24709a3c2a28abb50d725/uk-ets-waste-MRV-report.pdf

31. A ydych o’r farn y byddai Opsiwn 2 yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff?


32. Pa ddull (e.e. cenedlaethol, rhanbarthol neu benodol i weithfa) y dylid ei ddefnyddio wrth ddatblygu ffactorau cyfrifo rhagosodedig ar gyfer gweithfeydd llai o faint?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau yn cwmpasu'r gofynion monitro ac adrodd gan gyfanswm o 148 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws cwestiynau.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau gofynion monitro ac adrodd, gan gynnwys 75 o gyrff llywodraeth leol, 24 o weithredwyr EfW, ac 15 o randdeiliaid o rannau eraill o’r sector gwastraff (Ffigur 9).

**Ffigur 9 Dadansoddiad o ymatebwyr i ofynion monitro ac adrodd yn ôl categori rhanddeiliaid**




Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr i ofynion monitro ac adrodd yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi’i rhannu’n 10 categori: Ynni - 3%, Ynni o Wastraff - 17%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 2%, Diwydiant - 3%, Llywodraeth Leol - 53%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 2%, Arall - 3%, Gwastraff Arall - 11%, Corff Masnach - 4%.

Roedd ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal ynghylch a ddylid defnyddio dull haenog wrth ymdrin â gofynion monitro ac adrodd. Roedd dadleuon o blaid dull haenog yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i gydbwyso cywirdeb heb faich anghymesur i gyfleusterau llai o faint. Y prif gyfiawnhad dros anghytuno oedd y byddai dull haenog yn rhy gymhleth i'w weithredu ac y dylai'r un gofynion fod yn gymwys i bob cyfleuster er tegwch ac i osgoi cymhellion gwrthdro.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr (10%) yr angen i'r dulliau monitro ac adrodd fod yn gyson â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer trosglwyddo costau (y dull ar gyfer trosglwyddo costau CMA o weithredwyr i'w cwsmeriaid) gan y bydd defnyddio dulliau gwahanol yn ychwanegu at ansicrwydd gan arwain at ganlyniadau llai cywir.


Ffafriwyd Opsiwn 2 (haenau dull methodolegol) mymryn dros Opsiwn 1 (haenau amrediadau ansicrwydd), gyda 51% o'r ymatebwyr o blaid ei gymhwyso i gyfleusterau llosgi gwastraff, o'i gymharu â 46% ar gyfer Opsiwn 1. Roedd gan ymatebwyr bryderon tebyg am y ddau opsiwn, yn bennaf o ran y dulliau systemau haenau yn peidio â hwyluso trosglwyddo costau yn effeithiol. Yn benodol, fe wnaethant sôn bod y dull Carbon-14 yn cael trafferth adnabod cynnwys ffosil yn gywir ar gyfer cwsmeriaid penodol, a bod technegau samplu yn wynebu heriau oherwydd natur amrywiol ffrydiau gwastraff a'u hanghywirdebau cynhenid.

Yn ogystal, roedd ymatebwyr (68%) yn pryderu nad yw'r amcangyfrif o’r gydberthynas rhwng y dulliau monitro allyriadau a'r haenau ansicrwydd yn Opsiwn 1 yn cyd-fynd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at adroddiad Ricardo, a dynnodd sylw at ddata cyfyngedig ar ansicrwydd y dulliau hyn ac awgrymu y gallai bodloni gofynion arfaethedig CMA y DU fod yn heriol.

Cynigiodd un corff masnach ddull amgen, sef cymhwyso ffactorau allyriadau wedi’u graddnodi i bob cyfleuster ar gyfer y cyfnod MRV yn unig a CMA Cam 1 hyd at 2030. Mae'r cynnig yn cynnwys cyfrifo ffactorau allyriadau wedi’u bandio ar gyfer gwastraff awdurdodau lleol, yn seiliedig ar y mathau o gasglu ailgylchu a gynigir gan y cyngor, gydag un ffactor allyriadau ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol. Byddai'r ffactorau allyriadau ar gyfer pob band yn cael eu haddasu'n flynyddol yn seiliedig ar ddadansoddiad Carbon-14. Awgrymodd y corff masnach y dylid adolygu'r dull ar ôl 2030, ac adeg hynny gallai fod modd cytuno ar ddulliau fesul cwsmer. Roedd 13% o'r ymatebwyr (gweithredwyr Ynni o Wastraff yn bennaf) yn ffafrio dull sy'n seiliedig ar ffactorau allyriadau.

Pan ofynnwyd iddynt ar ba raddfa y dylid datblygu ffactorau cyfrifo rhagosodedig, nododd 73% o'r ymatebwyr eu bod yn ffafrio ffactorau cyson ar lefel genedlaethol (Ffigur 10). Yn ogystal, pwysleisiodd 20% o randdeiliaid bwysigrwydd adlewyrchu gwahanol gyfansoddiadau gwastraff cwsmeriaid EfW i gydnabod ymdrechion datgarboneiddio. Ar ben hynny, argymhellodd 22% o'r ymatebwyr ddefnyddio samplu Carbon-14 a chyfansoddiadol i lywio ffactorau allyriadau a’u diweddaru’n rheolaidd.

**Ffigur 10: Hoff ddewisiadau rhanddeiliaid ar gyfer lefel ffactorau cyfrifo rhagosodedig**




Yn seiliedig ar y 59 ymateb i gwestiwn 32 a gyfeiriodd yn uniongyrchol at un o'r opsiynau.

Siart sy'n dangos hoff ddewisiadau ymatebwyr ar gyfer lefel ffactorau allyriadau a gyfrifir. Mae wedi’i rhannu’n 4 categori: Cenedlaethol - 73%, Rhanbarthol 3%, Gweithfa - 20%, a Hybrid 3%.

## Ymateb yr Awdurdod

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd yr Awdurdod ddull haenog yn seiliedig ar ansicrwydd neu ddull haenog yn seiliedig ar fethodoleg ar gyfer MRV.

**Fel y nodwyd yn Ymateb yr Awdurdod i'r adran flaenorol, rydym bellach yn ystyried dulliau integredig, sy'n cyfuno monitro $CO_2$, dadansoddiad Carbon-14 a ffactorau allyriadau.** Mae'r egwyddorion canlynol yn parhau i fod yn bwysig ar gyfer datblygu polisi:

- **Cymesuredd**, gyda gofynion llymach ar gyfer gweithredwyr ag allyriadau uwch.
- **Gofynion sefydlog ar gyfer monitro seiliedig ar fesur**, gan osod safonau isafswm ansicrwydd ar gyfer dulliau monitro lle bo hynny'n briodol/yn bosibl.
- **Cywirdeb**, lle mae gweithredwyr yn anelu am y cywirdeb gorau y mae modd ei gyflawni, oni bai nad yw hyn yn dechnegol ymarferol neu ei fod yn mynd i gostau afresymol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i brofi dulliau MRV a byddwn yn nodi’r gofynion MRV terfynol mewn Ymateb dilynol gan yr Awdurdod. Rydym felly yn cynnig yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol:

- Bydd disgwyl i gyfleusterau Categori B (50,000-500,000 tunnell o $CO_2$ ffosil) a Chategori C (500,000+ tunnell o $CO_2$ ffosil) fonitro allyriadau gan ddefnyddio Systemau Monitro Allyriadau Parhaus (CEMS) ac offer Carbon-14, oni bai eu bod yn gallu dangos i reoleiddwyr bod hyn yn dechnegol amhosibl neu y byddai'n mynd i gostau afresymol.
- Bydd cyfleusterau Categori A (25,000-50,000 tunnell o CO2 ffosil) yn cael eu hannog i gynnal monitro CEMS a Charbon-14 ond gallant wneud cais i reoleiddwyr i ddefnyddio

ffactorau allyriadau os gallant ddangos nad yw'r disgwyliad hwn yn bosibl neu nad yw'n gymesur â'u cyfleuster.

- Bydd disgwyl i weithredwyr fodloni isafswm safon ansicrwydd ar gyfer monitro $CO_2$ trwy CEMS, a chydymffurfio â gweithdrefnau safonol penodol ar gyfer mesur y canran $CO_2$ ffosil trwy Carbon-14 ond **ni fydd yn ofynnol iddynt fodloni safon ansicrwydd gyffredinol ar gyfer y ddwy dechnoleg gyda'i gilydd.** Bydd canllawiau pellach ar safonau ac ansicrwydd ar gyfer Carbon-14 a CEMS yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.
- Yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd cyfleusterau sy'n defnyddio ffactorau allyriadau yn gallu defnyddio ffactorau allyriadau cenedlaethol ceidwadol wedi'u datblygu gan yr Awdurdod. Bydd y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn cael ei ddefnyddio i gyd-ddatblygu ffactorau allyriadau manylach gyda rhanddeiliaid.
- Yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol a blynyddoedd cyntaf cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, bydd gweithredwyr yn adrodd data ychwanegol i'r Awdurdod i alluogi profi a gwella ffactorau allyriadau manylach. Bydd hyn ar ben adrodd blynyddol ar allyriadau.
- Bydd yr Awdurdod yn gwella set o ffactorau allyriadau cynrychioliadol sy'n gysylltiedig â CEMS a Charbon-14 yn barhaus yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol. Cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, bydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniad terfynol ar y defnydd o'r ffactorau allyriadau hyn ar gyfer MRV. Rydym yn cydnabod yr angen am sicrwydd ac am rybudd digonol i weithredwyr a chwsmeriaid wneud paratoadau ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn MRV CMA y DU. Byddwn yn cyhoeddi ein cynnig MRV terfynol ymhell cyn ei gynnwys yn llawn.

Bydd yr Awdurdod yn dosbarthu canllawiau manwl i weithredwyr ar ofynion MRV ar gyfer y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn ddiweddarach eleni.

# Canllawiau

## Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom gydnabod y bydd angen cymorth ar gyfleusterau llosgi gwastraff i weithredu'r mesurau a drafodwyd. Fe wnaethom nodi bwriad i weithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol ac ar draws Awdurdod CMA y DU i ddatblygu canllawiau yn ôl yr angen i gefnogi cyfranogwyr i fodloni eu rhwymedigaethau CMA y DU. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff a'u cwsmeriaid.

**Cwestiynau**

33. Ar ba agweddau ar y polisi y dylem gyflwyno canllawiau, naill ai ar gyfer gweithredwyr, eu cwsmeriaid, neu'r ddau?

34. Sut dylem geisio profi unrhyw ganllawiau naill ai ar gyfer gweithredwyr, eu cwsmeriaid, neu'r ddau?


35. I ba amserlen y dylid cyflwyno canllawiau ar wahanol agweddau ar y polisi, ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau ynghylch y canllawiau gan gyfanswm o 157 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws cwestiynau.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau ar ganllawiau, gan gynnwys 96 o gyrff llywodraeth leol, 23 o weithredwyr EfW, ac 15 o randdeiliaid o rannau eraill o’r sector gwastraff (Ffigur 11).

**Ffigur 11 Dadansoddiad o ymatebwyr i ganllawiau yn ôl categori rhanddeiliaid**





Siart cylch sy'n dangos ymatebwyr i ganllawiau yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi’i rhannu’n 10 categori: Ynni - 2%, Ynni o Wastraff - 15%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 2%, Diwydiant - 3%, Llywodraeth Leol - 61%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 1%, Arall - 2%, Gwastraff Arall - 10%, Corff Masnach - 4%.

Gofynnodd ymatebwyr am ganllawiau ar ystod o agweddau polisi ar gyfer gweithredwyr a chwsmeriaid (Ffigur 12). Gofynnwyd amlaf am ganllawiau ar gyfer trefniadau trosglwyddo

costau. Ar ben hynny, mynegodd llawer o ymatebwyr yr angen i unrhyw ganllawiau fod yn glir ac yn ddealladwy ar gyfer cynulleidfa nad yw'n dechnegol.

**Ffigur 12 Cynnwys awgrymedig canllawiau**




Siart bar sy'n dangos canran y rhanddeiliaid a ofynnodd am ganllawiau ar bob agwedd bolisi. Llwybrau datgarboneiddio: Cyfanswm: 8%, Llywodraeth Leol: 6%, Gweithredwyr Gwastraff: 8%; Gofynion MRV: Cyfanswm: 44%, Llywodraeth Leol: 32%, Gweithredwyr Gwastraff: 67%; Rhwymedigaethau rhannu gwybodaeth a threfniadau contractiol: Cyfanswm: 21%, Llywodraeth Leol: 25%, Gweithredwyr Gwastraff: 19%; Trefniadau trosglwyddo costau: Cyfanswm: 53%, Llywodraeth Leol: 53%, Gweithredwyr Gwastraff: 56%; Rhyngweithio â pholisïau gwastraff eraill: Cyfanswm: 32%, Llywodraeth Leol: 38%, Gweithredwyr Gwastraff: 19%; Canllaw cyfeirio ar gynnwys biogenig/carbon pob math o wastraff: Cyfanswm: 41%, Llywodraeth Leol: 57%, Gweithredwyr Gwastraff: 17%

Mynegodd rhanddeiliaid awydd i fod yn rhan o ddatblygu a phrofi'r canllawiau. Dywedodd 54% y dylai'r llywodraeth ymgynghori'n eang ar unrhyw ganllawiau drafft a dywedodd 32% y dylai'r llywodraeth gynnwys rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses ddrafftio a chyd-ddatblygu canllawiau yn iterus.

Nododd bron pob un o'r ymatebwyr (84%) yr angen i ddatblygu unrhyw ganllawiau cyn gynted â phosibl o ystyried y bwriad i’r cyfnod MRV yn unig ddechrau yn 2026. Yn benodol, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd canllawiau cynnar i awdurdodau lleol i gynorthwyo gyda chynllunio ariannol, trafod contractau a pharatoi ar gyfer y cyfnod MRV yn unig. Argymhellodd rhai ymatebwyr i'r Llywodraeth ailasesu'r amserlen weithredu ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, yn enwedig os nad oes digon o amser i ddatblygu a dosbarthu canllawiau cynhwysfawr i'r sector ymlaen llaw.

## Ymateb yr Awdurdod

**Bydd canllawiau ar sut i gymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol yn cael eu darparu'n uniongyrchol i gyfranogwyr cyn diwedd 2025, gan alluogi gweithredwyr i gyflwyno cynlluniau monitro erbyn 1 Ionawr 2026.** O ystyried bod y canllawiau hyn dim ond ar gyfer y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, ac nid ar gyfer cymryd rhan yn y cynllun llawn, bydd ond yn cynnwys gwybodaeth am fonitro, adrodd a gwirio, ac nid ar agweddau eraill ar y cynllun. Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu canllawiau clir cyn i'r cyfnod MRV yn unig wirfoddol ddechrau fel bod y sector yn cael ei hysbysu a'i gefnogi yn ystod dechrau'r ehangu. Byddwn yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol ac ar draws yr Awdurdod i ddatblygu canllawiau wedi'u teilwra yn ôl yr angen i gefnogi gweithredwyr i gymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol ac i ddefnyddio system adrodd CMA y DU, METS. Cyn diwedd 2025, rydym yn ymrwymo i ddarparu canllawiau ar sut y dylai gweithredwyr rannu gwybodaeth gydag Awdurdod CMA y DU a chwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol, bydd canllawiau ar gydymffurfio â'r cynllun yn cael eu darparu trwy METS.

# Effeithiau'r cynllun a lleihau risgiau andwyol

Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar bedwar testun i benderfynu effeithiau'r cynllun a ffyrdd o leihau risgiau andwyol. Y rhain oedd:

- Dargyfeirio i dirlenwi ac allforio gwastraff (Cwestiynau 36-47)
- Llwybrau datgarboneiddio (Cwestiynau 48-52)
- Dosrannu trosglwyddo costau yn gywir (Cwestiynau 53-56)

## Dargyfeirio i dirlenwi ac allforio gwastraff

### Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gydnabod pryderon y gallai ehangu CMA y DU i gyfleusterau llosgi gwastraff gynyddu cost llosgi o'i chymharu â thirlenwi, a allai danseilio'r hierarchaeth gwastraff trwy gymell tirlenwi.  Fe wnaethom hefyd groesawu barn a thystiolaeth ynghylch a fyddai ehangu CMA y DU i dirlenwi yn ymarferol ac a fyddai'n darparu cymhelliant datgarboneiddio effeithiol, gan nodi rôl polisi gwastraff ehangach wrth reoli risg tirlenwi.

Gofynnodd yr Awdurdod hefyd am farn ar reoli'r risg o ddargyfeirio mwy o wastraff i'w allforio dramor ar ffurf Tanwydd sy'n Deillio o Sbwriel (RDF) neu Danwydd Solet wedi’i Adfer (SRF). Fe wnaethom nodi opsiwn amgen posibl i dreth allforio RDF/SRF neu waharddiad ar ffurf systemau trwyddedu fel mecanwaith lle gallem geisio dylanwadu ar lif allforion RDF/SRF.

**Cwestiynau**

36. A ydych yn disgwyl i ffioedd clwyd llosgi gwastraff fynd yn ddrytach na thirlenwi neu allforio o ganlyniad i ehangu CMA y DU? A yw'r disgwyliad hwn yr un fath ar gyfer pob math o ddeunydd a rhanbarth?
37. Os byddai ffioedd clwyd llosgi gwastraff yn mynd yn gymharol ddrytach, gan ystyried ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phrisiau wrth wneud penderfyniadau gwaredu a rheoli gwastraff, pa mor arwyddocaol yw'r risg y bydd gwastraff, yn ymarferol, yn cael ei ddargyfeirio yn ôl i lawr yr hierarchaeth i dirlenwi neu allforio?
38. O ystyried y manteision a’r heriau posibl a allai godi, a ydych o’r farn y dylid archwilio ehangu pellach CMA y DU i dirlenwi fel mecanwaith i ddiogelu rhag dargyfeirio gwastraff o losgi gwastraff i dirlenwi?
39. A ydych o’r farn y dylid archwilio opsiynau amgen i reoli'r risg tirlenwi?
40. A ydych o’r farn y byddai'r naill neu'r llall o'r dulliau a amlinellir uchod i fynd i'r afael â risg tirlenwi yn arwain at ganlyniadau anfwriadol?

41. Beth fyddai'r dull mwyaf effeithiol o liniaru'r risg y bydd gwastraff yn cael ei ddargyfeirio o losgi gwastraff i allforio RDF/SRF?

42. A ydych o’r farn y byddai cyfyngu ar nifer y trwyddedau allforio RDF/ SRF a gyhoeddir yn fecanwaith effeithiol i leihau'r risg o ddargyfeirio gwastraff o losgi gwastraff i allforio dramor?

43. A ydych o’r farn y byddai codi tâl am drwyddedau allforio RDF/SRF yn fecanwaith effeithiol i leihau'r risg o ddargyfeirio gwastraff o losgi gwastraff i allforio dramor?

44. A fyddai tâl sefydlog neu dâl amrywiadwy yn fwyaf effeithiol wrth reoli'r risg hon?

45. Pe baem yn bwrw ymlaen â datblygu cyfradd tâl amrywiadwy:

    a) A fyddai'n ddigon i'r gyfradd tâl adlewyrchu pris carbon CMA y DU?

    b) A fydd angen i’r cyfrifiad cyfradd tâl ystyried y pris carbon (os yw’n bodoli) yn y wlad gyrchfan lle bydd yr allforion RDF / SRF yn cael eu hanfon?

    c) Pa mor aml y bydd angen diweddaru cyfraddau tâl amrywiadwy?

46. A ydych o’r farn y dylid archwilio opsiynau amgen i reoli’r risg o allforio RDF/SRF?


47. A ydych o’r farn y gallai unrhyw opsiwn i fynd i'r afael â risg lliniaru allforio RDF/SRF arwain at ganlyniadau anfwriadol?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau ynghylch dargyfeirio i dirlenwi ac allforio gwastraff gan gyfanswm o 178 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws cwestiynau.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i'r cwestiynau hyn, gan gynnwys 96 o gyrff llywodraeth leol, 32 o weithredwyr EfW, ac 17 o randdeiliaid o rannau eraill o’r sector gwastraff (Ffigur 13).

**Ffigur 13 Dadansoddiad o ddargyfeirio i dirlenwi ac allforio gwastraff yn ôl categori rhanddeiliaid**





Siart cylch yn dangos ymatebwyr i ddargyfeirio i dirlenwi ac allforio gwastraff yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi’i rhannu’n 10 categori: Ynni - 4%, Ynni o Wastraff - 18%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 1%, Diwydiant - 3%, Llywodraeth Leol - 54%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 3%, Arall - 3%, Gwastraff Arall - 10%, Corff Masnach - 3%.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (85%) yn pryderu y gallai ehangu CMA y DU i wastraff achosi i ffioedd clwyd llosgi gwastraff fynd yn ddrytach na thirlenwi neu allforion.

Nododd ymatebwyr fod amrywiaeth o ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phrisiau a allai atal gwastraff rhag cael ei ddargyfeirio i lawr yr hierarchaeth gwastraff er gwaethaf ffioedd clwyd llosgi uwch. Fodd bynnag, dywedodd 46% o'r ymatebwyr y bydd cyflenwyr gwastraff yn y pen draw yn ceisio rheoli eu gwastraff trwy'r opsiwn mwyaf cost-effeithiol. Felly, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr o’r farn bod risg uchel o ddargyfeirio gwastraff i lawr yr hierarchaeth oherwydd ffioedd clwyd llosgi uwch (Ffigur 14).

**Ffigur 14: Risg o ddargyfeirio gwastraff i lawr yr hierarchaeth oherwydd ffioedd clwyd uwch**



Yn seiliedig ar y 74 ymateb i gwestiwn 37 a gyfeiriodd yn uniongyrchol at un o'r opsiynau.

Siart hanner toesen yn dangos tebygolrwydd ymatebwyr o ddargyfeirio gwastraff. Mae wedi’i rhannu’n 2 gategori: Risg uchel - 86%, Risg isel 14%.

Nododd ymatebwyr ystod o ffactorau a allai effeithio ar y risg o ddargyfeirio gwastraff i lawr yr hierarchaeth gwastraff i dirlenwi neu allforio:

- **Amrywiad rhanbarthol:** Nododd rhai ymatebwyr (18%) fod risgiau rhanbarthol yn dibynnu ar bolisïau lleol, capasiti EfW, gweithfeydd CCS, a chyfraddau treth a gwaharddiadau tirlenwi.
- **Amrywiad deunydd:** Nododd rhai ymatebwyr (19%) y gall fod gwahaniaethau yn yr effaith ar ffrydiau gwastraff. Er enghraifft, bydd gwaharddiad arfaethedig yr Alban ar dirlenwi gwastraff trefol bioddiraddadwy yn debygol o atal y rhan fwyaf o wastraff gweddilliol rhag cael ei dirlenwi oherwydd presenoldeb gwastraff bioddiraddadwy.
- **Contractau tymor hir:** Nododd rhai ymatebwyr (11%) fod llawer o awdurdodau lleol wedi'u clymu i gontractau tymor hir gyda chyfleusterau EfW gydag isafswm tunelli i'w cyflawni, gan eu hatal rhag dargyfeirio gwastraff i lawr yr hierarchaeth.
- **Ehangu CMA yr UE i EfW:** Nododd rhai ymatebwyr (7%) y byddai allforion RDF a SRF i'r UE yn agored i bris carbon yr UE, pe bai'r UE yn bwrw ymlaen â'u cynlluniau i gynnwys llosgi gwastraff yn CMA yr UE, a fyddai'n lleihau cystadleurwydd allforion o'i gymharu â llosgi EfW yn y DU.

<u>Tirlenwi</u>

Nid oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (72%) o blaid ehangu CMA y DU i dirlenwi i atal dargyfeirio gwastraff. Codwyd pryderon ynghylch anhawster sicrhau nad oedd baich costau allyriadau etifeddol o wastraff hanesyddol ar randdeiliaid a bod y mwyafrif o allyriadau a gynhyrchir gan dirlenwi yn fethan biogenig, nad ydynt o fewn cwmpas CMA y DU.

Mae 89% o'r ymatebwyr o’r farn y dylid archwilio opsiynau amgen i atal gwastraff rhag cael ei ddargyfeirio i dirlenwi. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cynyddu'r dreth tirlenwi yn unol â'r pris carbon, fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, gweithredu gwaharddiadau tirlenwi tebyg i'r rhai sydd ar waith yn yr Alban ac yng Nghymru, a thargedu cynhyrchwyr i atal deunyddiau annymunol rhag mynd i mewn i'r llif gwastraff.

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid (89%) o’r farn y gallai unrhyw ddull sydd â’r nod o fynd i'r afael â risg tirlenwi gael canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys cynnydd mewn allforion gwastraff a throseddau gwastraff.

<u>Allforion</u>

Mewn ymateb i gwestiynau am liniaru'r risg o ddargyfeirio gwastraff o losgi i allforion RDF/SRF, rhybuddiodd 46% o'r ymatebwyr fod angen rhywfaint o allforion. Fe wnaethant ddadlau bod

allforion yn darparu opsiwn wrth gefn ar gyfer trin gwastraff pan fydd capasiti llosgi EfW yn gyfyngedig ac efallai mai dyma'r unig ddewis arall i dirlenwi mewn rhai rhanbarthau.

Roedd consenswS cyfyngedig yn ymatebion yr ymgynghoriad o ran y dull gorau o ddatgymell allforio gwastraff:

- Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (79%) o’r farn bod cyfyngu ar nifer y trwyddedau allforio RDF/SRF a gyhoeddir yn fesur effeithiol i leihau'r risg o ddargyfeirio gwastraff i allforion.
- Nid oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (67%) o’r farn y byddai codi tâl trwyddedu ar allforion RDF / SRF yn fecanwaith effeithiol i leihau'r risg o ddargyfeirio gwastraff i allforion.
- Awgrymodd rhai rhanddeiliaid ddull Mecanwaith Addasu Ffiniau Carbon (CBAM) o ymdrin ag allforion sy'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng prisiau carbon domestig a phrisiau carbon rhyngwladol.
- Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai polisi'r llywodraeth ganolbwyntio ar atal deunyddiau annymunol rhag cael eu cynhyrchu yn y ffynhonnell.
- Cynigiodd rhai rhanddeiliaid drethi allforio gan gynnwys treth haenog sy'n gwahaniaethu rhwng gwledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE; ardoll fesul tunnell; a threth sy'n cynyddu'n raddol.

## Ymateb yr Awdurdod

<u>Tirlenwi</u>

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad ynghylch y risgiau o ehangu CMA y DU i wastraff yn achosi dargyfeirio i dirlenwi. Cyn cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, byddwn yn sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddatgymell dargyfeirio i dirlenwi ac atgyfnerthu'r hierarchaeth gwastraff. Fodd bynnag, nid ydym o’r farn y byddai ehangu CMA y DU i dirlenwi yn opsiwn ymarferol ac y byddai'n darparu cymhelliant datgarboneiddio effeithiol. Byddwn yn nodi mwy o fanylion maes o law.

<u>Allforion</u>

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pryderon a godwyd gan ymatebwyr am y risg o gymell allforio gwastraff, a bod angen rhywfaint o allforio gwastraff i reoli cyfyngiadau capasiti. Rydym yn datblygu ein sefyllfa bolisi i sicrhau nad yw allforio gwastraff yn cael ei ddefnyddio i osgoi costau CMA. Byddwn yn nodi mwy o fanylion maes o law.

# Llwybrau datgarboneiddio

## Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom amlinellu llwybrau datgarboneiddio ar gyfer y sector gwastraff. Roedd hyn yn cynnwys dull arfaethedig lle gall costau CMA y DU ar gyfer rhai deunyddiau gwastraff gael eu trosglwyddo yn ôl i gynhyrchwyr, yr angen i ddargyfeirio gwastraff ffosil o losgi a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ystyried cymorth i awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i gyd-gynllunio ar gyfer gweithredu CMA y DU yn y sector gwastraff, gyda chanolbwynt penodol ar wastraff sy'n deillio o danwydd ffosil nad oes ganddynt lwybr datgarboneiddio na mecanwaith adennill costau ar hyn o bryd. Fe wnaethom nodi bod Llywodraeth y DU yn ystyried y broses ar gyfer cefnogi awdurdodau lleol ar ôl cynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff yn CMA y DU nes bod ganddynt lwybrau datgarboneiddio ar waith. Gwnaethom hefyd gynnig sicrhau bod CMA y DU yn cyd-fynd â pEPR fel bod y pris carbon yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses adennill costau pEPR.

Roedd yr Awdurdod yn cydnabod yr angen i gyflymu'r broses o ddefnyddio technolegau arloesol fel Dal a Storio Carbon (CCS) ar draws y sector gwastraff ehangach yn y DU.

**Cwestiynau**

48. A ydych yn cytuno â'r llwybrau datgarboneiddio ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff a nodir uchod? Rhowch ragor o fanylion i gefnogi'ch ateb, gan gynnwys gwybodaeth am allu awdurdodau lleol a/neu weithredwyr llosgi gwastraff i ymgymryd â'r llwybrau datgarboneiddio a nodwyd. Rhowch hefyd unrhyw wybodaeth am weithgareddau neu lwybrau datgarboneiddio ychwanegol sydd ar gael i awdurdodau lleol a/neu weithredwyr llosgi gwastraff.

49. A oes gennych unrhyw dystiolaeth ar y costau, yr arbedion a'r elw posibl y gellid ei gynhyrchu o dechnolegau datgarboneiddio megis CCS a rhwydweithiau gwres? Os oes, rhowch fwy o fanylion os gwelwch yn dda. Byddem yn croesawu'n arbennig tystiolaeth ar gyfer y cyfnod contractiol cyfan a/neu oes y cyfleuster.

50. Rhowch unrhyw sylwadau ar arbedion cost o dechnolegau datgarboneiddio megis CCS a rhwydweithiau gwres ac a fydd y rhain yn cael eu trosglwyddo yn ôl i gwsmeriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol.

51. A ydych yn cytuno bod angen canllawiau ar ddatgarboneiddio ar gyfer awdurdodau lleol a gweithredwyr llosgi gwastraff? Rhowch ragor o fanylion i gefnogi'ch ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am fath, ffurf a chynnwys y canllawiau sydd eu hangen.

52. Y tu hwnt i'r mecanweithiau a restrir uchod, a oes unrhyw fecanwaith/ fecanweithiau eraill y byddech chi'n eu hargymell i gefnogi awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio? Rhowch ragor o fanylion i gefnogi'ch ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am y


math o fecanwaith/mecanweithiau cymorth a argymhellir a manylion am y math o ddeunyddiau a allai ddod y tu allan i gwmpas y mecanweithiau cymorth arfaethedig a nodir uchod.

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau ar lwybrau datgarboneiddio gan gyfanswm o 198 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws cwestiynau.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i gwestiynau datgarboneiddio, gan gynnwys 98 o gyrff Llywodraeth leol, 27 o weithredwyr Ynni o Wastraff, ac 16 o randdeiliaid o rannau eraill yn y sector gwastraff (Ffigur 15).

**Ffigur 15: Dadansoddiad o ymatebwyr i lwybrau datgarboneiddio yn ôl categori rhanddeiliaid**




Siart cylch yn dangos ymatebwyr i lwybrau datgarboneiddio yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi'i rhannu'n 10 categori: Ynni - 3%, Ynni o Wastraff - 14%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 1%, Diwydiant - 9%, Llywodraeth Leol - 49%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 4%, Arall - 2%, Gwastraff Arall - 8%, Corff Masnach - 10%.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (75%) yn cytuno â'r llwybrau datgarboneiddio a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad (CCS, rhwydweithiau gwres, a pEPR). Roedd pryderon yn cynnwys:

- **Rheolaeth gyfyngedig awdurdodau lleol dros gyfansoddiad gwastraff gweddilliol:** Dywedodd 34% o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rhan fwyaf o gyrff llywodraeth leol, fod cyfansoddiad gwastraff gweddilliol yn dibynnu ar arferion gwaredu cartrefi a chyfranogiad gwirfoddol mewn cynlluniau ailgylchu. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn na

fydd costau CMA yn annog awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio, gan fod ganddynt alluoedd cyfyngedig i newid cyfansoddiad gwastraff gweddilliol.

- **CCS:** Dadleuodd 40% o'r ymatebwyr fod CCS yn dechnoleg ddatblygol ac nad yw ei heffeithiolrwydd wedi'i brofi. Nododd 27% o'r ymatebwyr efallai na fydd modd ôl-osod technoleg CCS i bob peiriant EfW oherwydd ynysu rhanbarthol, diffyg mynediad at seilwaith trafnidiaeth, lle cyfyngedig neu oes weithredol fer sy'n weddill.
- **Rhwydweithiau gwres:** Fe wnaeth 18% o'r ymatebwyr dynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â chysylltu rhwydweithiau gwres â chyfleusterau EfW, gan nodi bod hyfywedd rhwydweithiau gwres yn dibynnu ar y galw lleol. Nododd rhai ymatebwyr, er y bydd tynnu gwres yn lleihau allyriadau ledled y system trwy gynhyrchu gwres carbon isel, ni fydd yn lleihau allyriadau cyfleusterau EfW yn uniongyrchol. Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu y dylid cymell tynnu gwres trwy lwfansau rhad ac am ddim.
- **Oedi mewn Diwygiadau Pecynnu Casglu (CPR):** Roedd rhai rhanddeiliaid (11%) yn amheugar ynghylch effeithiolrwydd y CPR (gan gynnwys pEPR a mesurau ailgylchu tebyg) oherwydd oedi parhaus mewn diwygiadau ac ansicrwydd ynghylch agweddau penodol ar y cynllun. Mae ymatebwyr yn pwysleisio y dylai'r CPR gael eu gweithredu'n llawn cyn ei bod yn ofynnol i weithredwyr ildio lwfansau CMA y DU (UKA).
- **pEPR:** Roedd rhai ymatebwyr (9%, sy'n cynnwys cyrff Llywodraeth Leol yn bennaf) yn pryderu na fydd y gyfundrefn pEPR yn cyfrif am gostau CMA. I'r gwrthwyneb, mae rhai ymatebwyr (10%, rhanddeiliaid diwydiant yn bennaf) wedi dadlau yn erbyn cynnwys costau CMA yn y pEPR, gan honni, os yw'r pEPR yn cael ei ymestyn i dalu costau'r CMA, gallai hyn arwain at godi tâl ddwywaith am becynnu sydd eisoes yn ddarostyngedig i ffioedd wedi'u modiwleiddio o dan y pEPR, a lleihau cymhellion i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn arferion ailgylchu gwell.
- **Didoli cyn llosgi:** Roedd rhai rhanddeiliaid (19%) yn dadlau yn erbyn didoli gwastraff ymlaen llaw fel opsiwn datgarboneiddio hyfyw oherwydd cost gychwynnol uchel y seilwaith angenrheidiol a'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer ailgylchu o ystyried ansawdd isel y deunyddiau a echdynnir.
- **Opsiynau datgarboneiddio cyfyngedig ar gyfer rhai deunyddiau:** Nododd rhai ymatebwyr (15%) ei bod naill ai'n ofynnol yn gyfreithiol i losgi rhai deunyddiau (megis Llygryddion Organig Parhaus (POPs)) neu eu bod yn anodd eu hailgylchu (e.e. matresi a charped), gan adael dim opsiynau datgarboneiddio ar gael i'w gwaredu.

Roedd ymatebwyr yn rhanedig ynghylch a fydd buddsoddiad mewn technolegau datgarboneiddio, megis CCS a rhwydweithiau gwres, yn darparu arbedion ac elw posibl i gyfleusterau EfW a'u cwsmeriaid. Dadleuodd rhai ymatebwyr nad yw'r technolegau hyn yn hyfyw ar hyn o bryd, a honnodd 44% y bydd unrhyw fuddsoddiad yn arwain at gostau uwch yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr. Rhestrodd ymatebwyr eraill gyfres o ffactorau a allai ddylanwadu ar eu proffidioldeb:


- **Pris carbon CMA:** Dywedodd 21% o'r ymatebwyr y bydd eu hyfywedd yn dibynnu ar bris lwfansau CMA.

- **Ffactorau rhanbarthol:** Nododd 8% o'r ymatebwyr y gall hyfywedd y buddsoddiadau hyn ddibynnu ar gyfres o ffactorau rhanbarthol gan gynnwys rheoliadau cynllunio lleol, barn y cyhoedd ac argaeledd tir addas.
- **Cymhellion y Llywodraeth:** Mae 19% o'r ymatebwyr wedi dweud y bydd angen cymorth y Llywodraeth i wneud y technolegau hyn yn hyfyw.

Nid yw'n glir o'r ymatebion, os cyflawnir arbedion, a fyddant yn cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid cyfleusterau EfW, gyda rhai ymatebwyr (8%) yn nodi y bydd hyn yn dibynnu ar gontractau unigol.

Pan ofynnwyd iddynt awgrymu mecanweithiau eraill y gellir eu defnyddio i gefnogi awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio, ailadroddodd rhai ymatebwyr (21%) eu hawgrym y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio ar ymyriadau polisi sy'n targedu cynhyrchwyr. Serch hynny, awgrymodd ymatebwyr gyfres o ddulliau amgen y gellir eu defnyddio i ddatgarboneiddio ffrydiau gwastraff (Ffigur 16).


**Ffigur 16: Dulliau datgarboneiddio amgen**




Siart bar sy'n dangos amlder dulliau datgarboneiddio amgen a awgrymwyd. Cost cynhyrchion i dalu am y gost o waredu – 25, adolygu'r Dreth Pecynnu Plastig – 9, rhyddid ALl i reoli amlder casglu gwastraff – 35, ehangu ailgylchu – 43, EPR ychwanegol – 54, ymgyrchoedd ymddygiad – 37, a phwerau gorfodi ALl – 23.

Cytunodd bron pob un (95%) o'r ymatebwyr ar yr angen am ganllawiau ar ddatgarboneiddio, ac amlinellir awgrymiadau ar gyfer math a chynnwys y canllawiau yn Ffigur 17.

**Ffigur 17: Cynnwys awgrymedig canllawiau**




Siart bar yn dangos amlder awgrymiadau canllawiau: Gwahaniaethu rhwng cyfleusterau wedi'u lleihau a heb eu lleihau – 6, polisïau sy'n groes i'w gilydd a all atal buddsoddi – 29, polisïau a chymhellion i sbarduno buddsoddiad – 38, trosglwyddo costau – 33, cynnwys astudiaethau achos arferion gorau – 35, cydnabod gwahaniaethau rhanbarthol – 19%, a llwybrau datgarboneiddio – 49.

## Ymateb yr Awdurdod

**Rydym yn cydnabod yr heriau y mae ehangu'r cynllun yn eu gosod ar awdurdodau lleol sydd â rheolaeth gyfyngedig dros gyfansoddiad y gwastraff y mae'n ofynnol iddynt ei gasglu a'i reoli. Felly, ni fydd disgwyl i awdurdodau lleol dalu costau CMA llawn. Bydd yr Awdurdod yn cadarnhau cynigion i helpu awdurdodau lleol i reoli effeithiau'r cynllun cyn i gyfleusterau gael eu hamlygu i'r pris carbon mewn Ymateb dilynol gan yr Awdurdod.**

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd ehangu'r cynllun yn effeithio ar gwsmeriaid masnachol a diwydiannol (C&I) gan y byddant hefyd yn ddarostyngedig i gostau CMA. Fodd bynnag, mae cwsmeriaid C&I yn elwa o hyblygrwydd ychwanegol wrth ymateb i amrywiadau mewn costau o'i gymharu ag awdurdodau lleol ac yn aml mae ganddynt gontractau byrrach gyda'u gweithredwyr EfW. Bydd hyn yn caniatáu iddynt symud eu masnach i gyfleusterau sydd ag amlygiad is i gostau CMA, fel y rhai sydd â CCS, gan gymell defnyddio'r dechnoleg hon. Maent hefyd yn gallu gwneud newidiadau yn eu cadwyni cyflenwi i leihau cynnwys ffosil eu gwastraff ac yn gallu trosglwyddo costau i'w cwsmeriaid, yn wahanol i awdurdodau lleol.

Er bod cwsmeriaid C&I EfW yn gallu datgarboneiddio yn well, rydym yn cydnabod bod angen cyfres gynhwysfawr o bolisïau gan gynnwys cyllid, rheoleiddio a phrisio carbon i gyflawni datgarboneiddio ar draws y sector EfW. Mae'r Awdurdod hefyd yn deall bod angen polisïau ychwanegol i fynd i'r afael â ffrydiau gwastraff anodd eu datgarboneiddio.

Ym mis Tachwedd 2024 sefydlodd Llywodraeth y DU'r Tasglu Economi Gylchol i ddwyn ynghyd arbenigwyr diwydiant, academaidd a pholisi â llywodraethau canolog, datganoledig a lleol i ddatblygu Strategaeth Economi Gylchol seiliedig ar dystiolaeth a gweithredadwy ar gyfer Lloegr.

Bydd gwaith yr economi gylchol yn rhan o strategaeth ehangach sy'n canolbwyntio ar Genadaethau ar draws Llywodraeth y DU, wedi'i hategu gan y Strategaeth Ddiwydiannol sydd ar ddod, Cynllun Cyflawni'r Gyllideb Garbon wedi'i adnewyddu, ac wedi'i ategu'n helaeth gan Strategaeth Datgarboneiddio Ddiwydiannol.

Mae Llywodraeth y DU bellach wedi cadarnhau'r chwe sector â blaenoriaeth cyntaf y bydd y tasglu yn canolbwyntio arnynt i sicrhau'r effaith fwyaf – tecstilau, trafnidiaeth, adeiladu, bwyd-amaeth, gwastraff offer trydanol ac electronig (WEEE) a chemegau a phlastigau. Bydd y Tasglu nawr yn gweithio gyda'r sectorau hyn i greu cyfres o fapiau ffyrdd penodol i wella a diwygio'r dull o ddefnyddio deunyddiau, wedi'u hategu gan Strategaeth Economi Gylchol ar gyfer Lloegr a fydd yn cael ei chyhoeddi yn Hydref 2025. Bydd y mapiau ffyrdd a'r Strategaeth yn rhoi sicrwydd i fusnesau gynllunio a'r hyder i adeiladu a buddsoddi mewn seilwaith newydd.

Mae strategaeth economi gylchol 2021 Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu, yn ymrwymo Cymru i ddiwastraff (gweddilliol) erbyn 2050. Yn ogystal â gweithredu ei pholisïau 'Gwnaed yng Nghymru' ei hun megis y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei chynllun Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2 yr angen i weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU i edrych ar ble y gallai fod polisïau y gellid eu gweithredu ar sail ledled y DU.

Yn yr Alban, mae Gweinidogion wedi gweithio'n galed i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau a'r economi gylchol. Yn fwyaf diweddar, sefydlodd Deddf Economi Gylchol (Yr Alban) 2024 y fframwaith deddfwriaethol i gefnogi trawsnewid yr Alban i economi ddiwastraff a chylchol, cynyddu cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu yn sylweddol, a moderneiddio a gwella gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi Trywydd Economi Gylchol a Gwastraff yr Alban i 2030. Mae hyn yn nodi'r camau clir yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau a hyrwyddo economi gylchol yn yr Alban erbyn 2030. Mae'r Trywydd yn cynnwys camau penodol sy'n ymwneud â lleihau gwastraff ac allyriadau cysylltiedig, gwneud y mwyaf o ailddefnyddio ac ailgylchu, a datgarboneiddio gwaredu unrhyw wastraff gweddilliol. Wrth edrych ymlaen, mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyhoeddi strategaeth economi gylchol statudol yn 2026 a gosod targedau economi gylchol newydd erbyn 2027. Bydd y strategaeth yn nodi sectorau a systemau â blaenoriaeth, a bydd yn cymryd golwg strategol tymor hwy hyd at 2045. Mae ymgynghoriad ar y strategaeth a fframwaith monitro a dangosyddion cysylltiedig wedi'i gynllunio ar gyfer yn ddiweddarach yn 2025.

Mae 'Rethinking Our Resources' yn gasgliad o ffrydiau gwaith a fydd yn nodi'r diwygiadau angenrheidiol sydd eu hangen yng Ngogledd Iwerddon i sbarduno rheoli adnoddau a gwastraff yn well i gyfrannu at uchelgais Sero Net Gogledd Iwerddon, gwella'r amgylchedd ac adeiladu economi well, fwy cylchol. Y Strategaeth Rheoli Gwastraff (WMS) yw conglfaen y gwaith hwn gyda'r ymgynghoriad ailgylchu diweddar, 'Rethinking Our Resources: Measures for Climate

Action and a Circular Economy in NI’ yn waith ar un elfen o'r strategaeth. Mae ffrydiau gwaith eraill yn cael eu sbarduno gan y nifer o sbardunwyr deddfwriaethol a pholisi sydd wedi'u datblygu a'u gweithredu ers y WMS blaenorol, a gyhoeddwyd yn 2013.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio ar y cyd i sicrhau bod y cynigion hyn ar draws y pedair gwlad yn cefnogi datgarboneiddio gwastraff a fydd yng nghwmpas CMA y DU, gan leihau allyriadau o'r sector hwn.

Cyd-fynd â'r Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu

**Bydd CMA y DU yn cyd-fynd â pEPR fel bod y costau carbon ychwanegol i awdurdodau lleol am waredu deunyddiau pecynnu drwy losgi yn cael eu hystyried fel rhan o gyfrifo taliadau pEPR ar gyfer rheoli deunydd pecynnu cartrefi yn effeithlon.**

Mae hyn yn golygu y byddai'r taliadau i awdurdodau lleol ar gyfer rheoli deunydd pecynnu cartrefi yn effeithlon ac yn effeithiol o dan pEPR yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â CMA y DU, lle mae deunydd pecynnu gwastraff wedi'i waredu'n briodol trwy losgi. Mae pEPR wedi'i gynllunio i wella effeithlonrwydd trwy roi cyfrifoldeb ar fusnesau am effaith amgylcheddol eu deunydd pecynnu. Bydd hyn yn cymell defnydd priodol o ddeunydd pecynnu, y defnydd o ddeunydd pecynnu ailgylchadwy ac amldro ac yn annog mwy o ailbrosesu domestig a gwelliannau cyffredinol i'r system.

Rydym wedi ymgymryd â gwaith pellach ers yr ymgynghoriad blaenorol i ddeall pa gyfran o'r allyriadau fydd yng nghwmpas pEPR a CMA y DU. Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif bod rhwng 20-30% *yn ôl pwysau* o'r gwastraff ffosil sy'n cael ei drin gan awdurdodau lleol ac sy'n cael ei losgi o fewn cwmpas pEPR. Mae hyn yn golygu y byddai'r pris carbon sy'n gysylltiedig â gwaredu'r gwastraff hwn trwy losgi yn cael ei gyflenwi gan daliadau pEPR. Mae dadansoddiad cyfansoddiadol o samplau gwastraff yn awgrymu bod llosgi'r deunydd hwn sydd o fewn cwmpas *ar hyn o bryd* yn cyfrannu 60% o'r allyriadau a gynhyrchir o losgi gwastraff cartrefi, oherwydd bod llawer o'r deunydd sydd o fewn cwmpas pEPR ar hyn o bryd yn cynnwys plastigau. Fodd bynnag, bydd casglu mandadol o blastigau hyblyg o gartrefi i'w hailgylchu o 31 Mawrth 2027 yn lleihau canran y gwastraff ffosil sy'n mynd i mewn i'r llif gwastraff gweddilliol a chyfleusterau llosgi gwastraff. Mae'r llywodraeth yn archwilio'r ffordd orau o gynyddu'r galw am y deunydd wedi'i ailgylchu hwn. Felly, rydym yn disgwyl i'r ffigur hwnnw leihau, fel y bydd llai na 60% o'r allyriadau a gynhyrchir o losgi gwastraff cartrefi yn deillio o ddeunyddiau o fewn cwmpas pEPR erbyn 2028. Mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd cyfran yr allyriadau sy'n gysylltiedig â llosgi gwastraff cartrefi, ac felly'r pris carbon ar gyfer yr allyriadau hyn, a bydd yn dibynnu ar yr effaith y mae'r cynllun pEPR yn ei chael trwy gydol y blynyddoedd blaenorol.

Bydd yn hanfodol sicrhau bod costau CMA yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y cynllun pEPR, fel bod cynhyrchwyr deunydd pecynnu dim ond yn talu'r pris carbon ar gyfer losgi deunyddiau pecynnu sy'n cynnwys ffosil. Mae sawl ffrwd gwastraff nad ydynt o fewn cwmpas pEPR ac felly ni fyddant yn cael eu cwmpasu gan y mecanwaith trosglwyddo costau hwn. Mae dyluniad cynllun pEPR yn cynnwys addasiad o 2028 i gyfrif am y costau CMA sy'n gysylltiedig â deunydd pecynnu cartrefi. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn bwriadu ymgynghori yn ddiweddarach eleni i sicrhau bod y data cywir ar gael i gyfrif costau

CMA yn effeithiol wrth gyflawni bwriad polisi pEPR, i gynyddu maint ac ansawdd ailgylchu ac adfer deunydd ailgylchadwy o ffrydiau gwastraff gweddilliol.

# Dosrannu trosglwyddo costau yn gywir

## Crynodeb o'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, cydnabu'r Awdurdod bwysigrwydd dosrannu costau CMA yn gywir rhwng gwahanol gwsmeriaid i adlewyrchu lleihadau allyriadau ac ymdrechion ailgylchu. Rydym yn cydnabod yr anawsterau wrth wneud hynny o ystyried bod rhai cyfleusterau yn derbyn gwastraff o sawl ffynhonnell. Mae gwneud hynny yn angenrheidiol i gadw'r cymhellion datgarboneiddio sy'n deillio o gymhwyso costau CMA i allyriadau ffosil o losgi gwastraff. Fe wnaethom ymgynghori ar opsiynau ar gyfer trosglwyddo costau a nodi y bydd yr Awdurdod yn cefnogi hyn trwy ddarparu canllawiau, gan ein bod yn deall y bydd unrhyw ddarpariaethau yn dibynnu ar gyd-destunau gweithredwyr a chwsmeriaid penodol. Yr opsiynau ymgynghori oedd samplu, dull ffactor cyfrifo rhagosodedig a dull cyfunol, graddol.

**Cwestiynau**


53. A ydych o’r farn y byddai samplu (e.e. gofynion MRF) yn ddull effeithiol o gefnogi trosglwyddo costau cywir o weithredwyr EfW i gwsmeriaid?
54. A ydych o’r farn y byddai'r technegau dadansoddi samplau a amlinellir (e.e. didoli â llaw, diddymu detholus, a Charbon-14) yn cefnogi trosglwyddo costau cywir yn effeithiol?
55. A ydych o’r farn y dylid archwilio dewisiadau amgen i samplu, gan gynnwys ffactorau cyfrifo rhagosodedig?
56. A ydych o’r farn y byddai dull graddol o ddatblygu mecanwaith trosglwyddo costau yn ffordd ymarferol o fwrw ymlaen?

## Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd cwestiynau ar sut i ddosrannu costau CMA yn gywir gan gyfanswm o 166 o ymatebwyr, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws cwestiynau.

Ymatebodd ystod o randdeiliaid i’r cwestiynau hyn, gan gynnwys 94 o gyrff Llywodraeth leol, 25 o weithredwyr Ynni o Wastraff, ac 17 o randdeiliaid o rannau eraill yn y sector gwastraff (Ffigur 18).


**Ffigur 18: Dadansoddiad o ymatebwyr i drosglwyddo costau yn ôl categori rhanddeiliaid**




Siart cylch yn dangos ymatebwyr i drosglwyddo costau yn ôl categori rhanddeiliaid. Mae wedi'i rhannu'n 10 categori: Ynni - 2%, Ynni o Wastraff - 15%, Gofal Iechyd/ Clinigol - 2%, Diwydiant - 4%, Llywodraeth Leol - 57%, Corff Anllywodraethol/Grŵp Amgylcheddol - 3%, Arall - 2%, Gwastraff Arall - 10%, Corff Masnach - 5%.

Roedd anghytuno ynghylch a fyddai samplu yn ddull effeithiol o gefnogi trosglwyddo costau'n gywir, gyda 52% o'r ymatebwyr o blaid y dull. Cododd ymatebwyr gyfres o bryderon gyda samplu sydd i'w gweld yn Ffigur 19.

**Ffigur 19: Pryderon rhanddeiliaid ynghylch defnyddio samplu ar gyfer trosglwyddo costau**



Siart bar sy'n dangos pryderon rhanddeiliaid ynghylch samplu fel opsiwn trosglwyddo costau: pryderon ynghylch cost/ymarferoldeb, cyfanswm o 45%, tua 50% o ALlau a 40% o weithredwyr gwastraff, iechyd a diogelwch (tua 15% o'r cyfanswm, 10% o'r ALlau, 25% o weithredwyr gwastraff), anghywirdeb/anghynrychioldeb (tua 10% o'r cyfanswm, 10% o'r ALlau, 20% o weithredwyr gwastraff), risg o gamddefnydd (tua 10% o'r cyfanswm, 10% o'r ALlau, 20% o weithredwyr gwastraff), ac amharu ar weithrediadau (tua 5% o'r cyfanswm, 15% o weithredwyr gwastraff)

Cododd rhanddeiliaid bryderon sylweddol ynghylch defnyddio'r technegau samplu a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer trosglwyddo costau. Roedd y pryderon ar gyfer pob techneg yn cynnwys:

- **Carbon-14:** Nododd rhai ymatebwyr (24%) nad yw dadansoddiad Carbon-14 ar ôl llosgi yn gallu pennu cynnwys ffosil gwastraff cwsmeriaid unigol (cyn llosgi) ac felly ni all dosrannu costau'n gywir. Ar ben hynny, roedd rhai ymatebwyr (20%) yn pryderu bod capasiti labordai cyfyngedig i gynnal dadansoddi Carbon-14 ar gyfer y sector gwastraff.
- **Didoli â llaw:** Nododd rhai ymatebwyr (9%), er y gall didoli â llaw fod yn effeithiol ar gyfer trosglwyddo costau oherwydd ei fod yn gallu pennu cynnwys ffosil gwastraff i gwsmeriaid unigol, gall fod yn anymarferol oherwydd gwallau dynol, cost, a'r potensial am gamddefnydd.
- **Diddymu detholus:** Dywedodd rhai ymatebwyr (9%) nad yw diddymu detholus yn ddigon cywir na dibynadwy i fod yn addas.

Roedd 88% o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid archwilio dewisiadau amgen yn lle samplu. Dywedodd 32% o'r ymatebwyr mai ffactorau cyfrifo rhagosodedig yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer trosglwyddo costau. Fodd bynnag, roedd 13% o'r ymatebwyr yn pryderu bod dull ffactor allyriadau wedi'i gyfrifo yn darparu llai o gymhelliant i ddatgarboneiddio.

Dywedodd ymatebion gan gyrff masnach y sector gwastraff ei bod yn hanfodol i'r dull ar gyfer trosglwyddo costau gyd-fynd â'r dull ar gyfer MRV. Fe wnaethant gynnig dull ffactorau allyriadau wedi'u graddnodi yn seiliedig ar arferion ailgylchu awdurdodau lleol ar gyfer trosglwyddo costau.

Mae 79% o'r ymatebwyr wedi mynegi cefnogaeth am ddull graddol o ddatblygu mecanwaith trosglwyddo costau. Roedd dadleuon o blaid dull graddol yn cynnwys:

- **Datblygu dull newydd:** Caniatáu i ddull symlach megis ffactorau allyriadau gael ei weithredu i ddechrau, gan roi amser i randdeiliaid gydweithio a datblygu dull gwell wedi'i fireinio (19%).
- **Adeiladu capasiti rhanddeiliaid:** Gallai'r cam cychwynnol roi cyfle i randdeiliaid baratoi ac adeiladu capasiti ar gyfer systemau mwy soffistigedig wrth ddarparu data ystyrlon iddynt (15%).
- **Caniatáu i bolisïau eraill ddod i rym:** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid yr angen i lwybrau datgarboneiddio gael eu datblygu'n llawn cyn cynnwys y sector gwastraff yn

CMA y DU, gyda dull graddol o bosibl yn darparu amser ychwanegol i'r polisïau hyn gael eu gweithredu (15%).

Y prif gyfiawnhad yn erbyn dull graddol oedd y dylai cwsmeriaid a gweithredwyr ddechrau gweithio gyda'i gilydd cyn gynted â phosibl i baratoi ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU (7%) a bod angen canllawiau a deddfwriaeth gyson ar drefniadau trosglwyddo costau (11%).

## Ymateb yr Awdurdod

**Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu â'r sector, ar draws pob cam o'r gadwyn gyflenwi gwastraff, i ystyried dulliau trosglwyddo costau hyfyw sy'n cynnal y cymhelliant datgarboneiddio. Ein bwriad yw defnyddio'r cyfnod MRV yn unig gwirfoddol i brofi dulliau MRV sy'n caniatáu cysylltiad penodol rhwng tunelli o wastraff a chostau CMA, trwy system o ffactorau allyriadau a reolir yn genedlaethol.**

Mae cymhlethdodau yn gysylltiedig â throsglwyddo costau CMA yn ôl trwy gadwyni cyflenwi gwastraff, o ystyried bod gan nifer o bartïon ar wahanol gamau yng nghylch oes y cynnyrch gyfleoedd i ddatgarboneiddio ffrydiau gwastraff cyn iddynt gyrraedd y pwynt llosgi. Bydd gweithredwyr EfW, fel y parti sy'n gyfrifol am ildio lwfansau, hefyd yn gyfrifol am drosglwyddo costau CMA i'w cwsmeriaid, naill ai trwy briodoli uniongyrchol neu ar ôl cymhwyso cymalau Newid Cymwys yn y Gyfraith mewn contractau. Felly, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd dosrannu costau CMA yn gywir rhwng gwahanol gwsmeriaid yn ôl cynnwys ffosil eu gwastraff. Mae gwneud hynny yn angenrheidiol i gymell datgarboneiddio trwy wobrwyo lleihau allyriadau ac ymdrechion ailgylchu gyda chostau CMA is.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cynigion gan randdeiliaid ar ddulliau trosglwyddo costau, ac yn gwerthfawrogi'r adborth manwl a dderbyniwyd ar gyfer y methodolegau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch dadansoddiad labordai o samplau a'r defnydd o feddalwedd cydbwysedd màs berchnogol fel dulliau trosglwyddo costau.

Mae'r Awdurdod yn ystyried CEMS (ar gyfer monitro $CO_2$) a dadansoddiad Carbon-14 (ar gyfer ffracsiwn biogenig y $CO_2$) fel y dull mwyaf cyson a chywir o bennu allyriadau ar *lefel cyfleuster*. Fodd bynnag, nid yw CEMS na Charbon-14 yn addas ar gyfer pennu cynnwys gwastraff cwsmeriaid unigol.

Fel y nodwyd yn adrannau blaenorol Ymateb yr Awdurdod sy'n cwmpasu MRV a'r cyfnod MRV yn unig, mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i brofi dulliau MRV yn ystod y cyfnod MRV yn unig gwirfoddol i hwyluso trosglwyddo costau'n gywir trwy ddefnyddio ffactorau allyriadau wedi'u graddnodi. Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am y dulliau MRV arfaethedig mewn canllawiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn a byddwn yn ymgysylltu ar draws y sector gwastraff i sicrhau bod y dull CMA terfynol yn sicrhau'r cymhellion cywir i bob cyfranogwr yn y gadwyn gyflenwi gwastraff.

Rydym yn cydnabod yr angen i gwsmeriaid a gweithredwyr weithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer cynnwys y sector gwastraff yn CMA y DU, a phwysigrwydd rheoli trosglwyddo costau i awdurdodau lleol yn arbennig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/desnz

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym ba fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os dywedwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei ddefnyddio.